

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 15 Rhagfyr 2014 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**
Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.
3. **Materion Brys**
Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
4. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 10)
Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir
5. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**
 - a) Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 11 - 28)
 - b) Cymhariaeth o Gyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 29 - 31)
 - c) Diweddariad ar Gyllideb 2014/15 (fel yr oedd ar 30 Medi 2014) (Tudalennau 32 - 35)

6. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal

- a) Adolygiad o Aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd (Tudalennau 36 - 39)
- b) Ymateb i ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus - Plismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg (Tudalennau 40 - 61)
- c) Gweddarlledu Cyfarfodydd (Tudalennau 62 - 64)
- d) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 65 - 67)

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Llyn, 19 Ionawr 2015 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

Cyng Amanda Bragg
Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd)
Cyng Bob Dutton OBE
Cyng Philip C. Evans Y.H.
Cyng Julie Fallon
Cyng William T. Hughes
Cyng Dilwyn Morgan
Cyng Colin Powell
Cyng Bill Tasker
Cyng Gethin Williams (Is-Gadeirydd)

Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ynys Mon
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Gwynedd

Patricia Astbury
Timothy Rhodes

Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 15 Medi 2014, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Colin Powell (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn unig)

Y Cynghorwyr: Pat Astbury, Amanda Bragg, Bob Dutton, Julie Fallon, William T Hughes, Colin Powell a Tim Rhodes

Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig Pat Astbury a Tim Rhodes

Swyddogion: Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Richard Jarvis (Cyfreithiwr) a Nia Llwyd Lewis (Rheolwr y Gwasanaethau Iaith).

Hefyd yn bresennol: Anna Humphreys (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a'r Ditectif Uwch-Arolygydd Jo Ramessur-Williams (Heddlu Gogledd Cymru).

122. **PENODI CADEIRYDD (AR GYFER Y CYFARFOD YN UNIG)**

Gan fod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi rhoi ymddiheuriadau roedd angen penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Cynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Cynghorydd Colin Powell yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn unig.

PENDERFYNWYD-

Penodi'r Cynghorydd Colin Powell yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn unig.

123. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd), y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H., y Cynghorydd Bill Tasker a'r Cynghorydd Gethin Williams (Is-gadeirydd).

124. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cyngorydd Julie Fallon gysylltiad personol nad yw'n rhagfarnu, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

125. **MATERION BRYS**

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cyngorydd William Knightly MBE (Cadeirydd blaenorol Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), a oedd wedi marw.

Safodd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am funud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at y Cyngorydd Knightly MBE.

126. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 2 Mehefin 2014 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2014 fel cofnod cywir.

127. **ADRODDIAD DIWEDDARU AR GYFER PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**

Darparodd y Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) Banel yr Heddlu a Throsedd (PCP) gyda'i adroddiad diweddar am y cyfnod 2 Mehefin 2014 i ddiwedd mis Awst 2014.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio yn bennaf ar swyddogaethau ehangach y Panel o dan Adran 28 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Yn ogystal, roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r Panel gyflawni ei swyddogaethau o dan Adran 13 (1) o'r Ddeddf.

Amlygodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd meysydd canlynol yr adroddiad:

Amcan1 yr Heddlu a Throsedd 1 - Atal Trosedd:

- Roedd ffigurau diweddar a ddarparwyd gan yr Heddlu, yn dangos bod pob trosedd yn dangos cynnydd o 0.5% (blwyddyn hyd yma) a bod trosedd sy'n seiliedig ar ddiodefwr yn dangos cynnydd o 1%.
- Roedd achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf, ond roedd yn amlwg bod hyn yn rhan o duedd tymhorol, gan fod ASB yn dangos gostyngiad o 11% o flwyddyn i flwyddyn.
- Roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi yn ddiweddar wedi cyhoeddi Data Arolwg Trosedd yng Nghymru a Lloegr am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 2014. Roedd y ffigurau trosedd yn dangos bod trosedd yn ymddisoddi Cymru, ar y cyfan, gan gynnwys

twyll wedi gostwng gan 3% a hefyd pob trosedd ac eithrio twyll. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac roedd y gostyngiad a gyflawnwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer yr holl droseddau ac eithrio twyll y gostyngiad mwyaf yng Nghymru.

- Roedd dwyn o siopau yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd o 9% dros y flwyddyn flaenorol ac roedd cynnydd hefyd o 5% yng Ngogledd Cymru mewn byrgleriaeth o dai.

Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd - Darparu ymateb effeithiol:

- Roedd cofnodion yn dangos mai'r amser ymateb cyfartalog i argyfyngau ar wythnos 18 (2014/15) oedd 14.64 munud.
- Roedd y gyfradd rhoi'r gorau iddi ar gyfer galwadau di-argyfwng ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch tua 4%.
- Cynhaliwyd arolygon boddhad dioddefwyr bob chwarter ac roedd y canlyniadau diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at Mawrth 2014 yn dangos bod bodlonrwydd dioddefwyr gyda 'rhwyddineb cyswllt' yn uchel iawn ac yn cynyddu, gyda 97% yn fodlon neu'n fodlon iawn; ond fod boddhad gyda'r 'camau gweithredu' a gymerwyd wedi dirywio ychydig, ond aros yn sefydlog mewn i 4ydd chwarter 2013/14, gyda 77% yn fodlon neu'n fodlon iawn.

Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd - Lleihau niwed a'r risg o niwed:

- Roedd canlyniadau'r arolwg trosedd yn dangos bu cynnydd o 20% yn nifer y troseddau rhyw a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr, ac roedd cynnydd o 8% yng Ngogledd Cymru. Efallai bod y datblygiadau diweddar yn Rotherham wedi ychwanegu at y ffigwr hwn.

Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd – Magu partneriaethau effeithiol:

- Gofynnwyd i'r PCP anfon eu sylwadau ar gydweithio at Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC):

- Ers y cyfarfod diwethaf roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cael tri adroddiad arolygu odi wrth HMIC. Byddai'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cyhoeddi ei ymateb ffurfiol i'r Ysgrifennydd Cartref ar ddau o'r adroddiadau cyn hir.
- Mewn perthynas â'r Arolwg Cywirdeb Data Troseddau HMIC, roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi ei ymateb dros dro, a chafodd copi ei gylchredeg i'r Panel yn y cyfarfod. Yn ogystal, dosbarthwyd copi o'r llythyr a anfonwyd at Elfyn Llwyd AS yn y cyfarfod. Roedd Mr Llwyd AS wedi mynegi pryderon yn gyhoeddus ar ganfyddiadau'r arolygiad cywirdeb data troseddau; Fodd bynnag, eglurodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ei lythyr at Mr Llwyd fod yr adroddiad wedi gwneud nifer o argymhellion, pob un ohonynt yn ymwneud â'r broses weinyddol o gofnodi digwyddiadau a throseddau; nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud â phlisma'r materion hynny.

- Roedd dau fater wedi achosi pryder, un yn ymwneud â materion a gyfeiriwyd i'r Uned Diogelu'r Cyhoedd (PPU) gan asiantaethau eraill a'r llall oedd cofnodi rhai digwyddiadau fel 'ddim yn drosedd'.
- Roedd y Ditectif Uwch-arolygydd Jo Ramessur-Williams, sy'n Bennaeth ar Uned Diogelu'r Cyhoedd Gogledd Cymru yn bresennol yn y cyfarfod a chadarnhaodd bod yr holl ddigwyddiadau wedi cael eu trin yn gyflym ac mai camgymeriad gweinyddol wrth gofnodi digwyddiadau a throeddau ydoedd; dylai'r materion fod wedi cael eu cofnodi fel troeddau pan gawsant eu cyfeirio at y PPU yn hytrach nag ar ôl iddynt gael eu hymchwilio.
- Mewn perthynas â chofnodi digwyddiadau fel 'dim yn drosedd', hysbyswyd y Panel bod gan yr Heddlu ddyletswydd i ymchwilio i bob troedd a dangos yn glir pam fod troedd wedi ei chofnodi fel 'ddim yn drosedd'; y pwynt roedd yr adroddiad yn ceisio ei wneud oedd y dylent fod wedi cael eu cofnodi fel troeddau pan gawsant eu riportio gyntaf a'u cofnodi fel 'ddim yn drosedd' yn ddiweddarach.
- Roedd yr adroddiad arolygu hefyd yn disgrifio sut yr ymdriniwyd â thrais fel da iawn. Roedd cyflwyno tîm trais penodol flwyddyn yn ôl wedi dod â gwell gwasanaeth i ddioddefwyr trais rhywiol ac yn dangos ymrwymiad yr Heddlu at ddioddefwyr troeddau o'r fath.
- Dwedodd y Ditectif Uwcharolygydd wrth y Panel bod Gogledd Cymru yn parhau i arwain gweddill lluoedd Cymru mewn perthynas â chanlyniadau llwyddiannus yn y llys am droeddau trais rhywiol.

Diolchwyd i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throedd am ei adroddiad a gofynnodd y Panel am eglurhad ar yr hysbyseb ddiweddar ar gyfer swydd y Dirprwy Brif Weithredwr.

Hysbysodd y Comisiynydd yr Heddlu a Troedd y Panel fod y swydd yn benodiad dros dro am 12 mis dros gyfnod mamolaeth y Prif Weithredwr presennol. Cadarnhaodd y PCC hefyd mai Adran Adnoddau Dynol Heddlu Gogledd Cymru oedd wedi gosod y cyflog.

Gofynnwyd i'r PCC ddarparu data yn cymharu'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Troedd (OPCC) ag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru blaenorol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y gyllideb ar gyfer y OPCC yr un fath ag Awdurdod yr Heddlu ar £731k ac y byddai tanwariant y llynedd o £100k oherwydd swyddi gwag heb eu llenwi yn cael ei ddefnyddio i ariannu swydd y Dirprwy Brif Weithredwr.

Cwestiynodd y Panel sut oedd y strategaeth ar gyfer lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (-18%) yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus, yn enwedig pan fo cyllidebau yn cael eu lleihau.

Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd nad oes dim yn atal mwy o droedd na phresenoldeb/ hygyrchedd gweledol adnoddau'r heddlu. Roedd heddlu yn cael eu lleoli mewn canolbwytiau a'u symud yn ôl ac ymlaen yn aml mewn modd effeithiol (yorking). Yn ogystal, roedd nifer o ffactorau eraill wedi cyfrannu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys plismona cymdogaeth effeithiol, targedu troeddwyd mynych, gweithrediadau penodol a gweithio mewn partneriaeth.

Dyweddodd y PCC y byddai'n cyflwyno'r Panel gyda phapur mwy manwl ar weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y strategaethau sydd ar waith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismaona cymdogaeth.

Cyfeiriodd y PCC hefyd at erthyglau yn y wasg yn ddiweddar yn ymwneud â'r blog 'Thoughts of Oscar'. Hysbyswyd y Panel nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru unrhyw gofnod o gwyn gan Mr Guto Bebb AS. Dywedodd y Comisiynydd hefyd ei fod wedi cwrdd â Mr Bebb, a oedd wedi bod yn adeiladol a llawn help, a bod y Prif Gwnstabl wedi cytuno i edrych ar gwynion a wnaed gan etholwyr Mr Bebb.

Roedd y Panel hefyd yn cydnabod tosturi Swyddogion yr Heddlu wrth ddelio ag achosion sensitif.

PENDERFYNWYD-

(a) Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r penderfyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a'r wybodaeth a ddarparwyd yn ei adroddiad diweddar.

(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu data cymharol mewn perthynas â'r OPCC ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru blaenorol i sicrhau gwerth am arian.

(c) Bod papur manwl yn cael ei gyflwyno i Banel yr Heddlu a Throsedd ar weithio mewn partneriaeth a'r strategaethau sydd ar waith i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a phlismaona cymdogaeth.

128. DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2014/15 (Y SEFYLLFA AR 30 MEHEFIN 2014)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad diweddar ar y gyllideb blismaona ar gyfer Gogledd Cymru i Banel yr Heddlu a Throsedd.

Hysbyswyd y Panel ar 30 Mehefin 2014, mai cyfanswm yr amcanestyniad hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £0.385m.

Roedd yr amcanestyniadau'n dangos bod y gwariant yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb, fodd bynnag, o fewn hyn roedd nifer o achosion rhagamcanedig o orwariant thanwariant, gyda'r mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â:

- Gweithwyr - gorwariant rhagamcanedig o £0.564m
 - Gellid ariannu'r gorwariant o £0.254m ar Gyflogau Swyddogion yr Heddlu o'r Gronfa Swyddogion ar Brawf yn unol â'r strategaeth recriwtio
 - Gorwariant o £0.462m ar Gyflogau Staff yr Heddlu - roedd nifer o staff asiantaeth yn gostwng, a disgwylir i'r gorwariant rhagamcanedig hwn leihau yn ystod y flwyddyn.

- Tanwariant o £0.220m ar lwfansau - mae'r tanwariant wedi cael ei gyfrifo yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer y Swyddogion sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Cyflenwadau a Gwasanaethau - rhagwelir tanwariant o £0.394m
 - Tanwariant o £0.450m ar waith ffrensig – Mae gwaith ffrensig wedi ei nodi fel maes lle y gellid gwneud arbedion; os bydd y lefel hon o wariant yn cael ei gynnal yna byddai'r gyllideb yn cael ei lleihau yn 2015/16.
- Incwm - rhagwelir incwm ychwanegol o £0.404m
 - Rhaglen Newid Cerbydau – bellach ar waith yn llawn erbyn hyn, yn dilyn rhewi gwariant cyfalaf yn 2011/12. Mae hyn wedi arwain at werthu mwy nag arfer o gerbydau yn 2013/14 a 2014/15.

O ran y Rhaglen Gyfalaf, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid wrth y Panel er ei bod yn normal i'r gwariant fod yn isel ar ddechrau'r flwyddyn, byddai angen i'r cyllidebau ar gyfer llawer o'r prosiectau gael eu hail-broffilio.

Dwedwyd wrth y Panel hefyd bod gwaith ar y gweill i ganfod yr arbedion angenrheidiol ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

Cyfeiriwyd at y defnydd o staff asiantaeth ac mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi'r swyddi oherwydd absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb salwch; fodd bynnag, byddai adolygiad yn cael ei wneud mewn perthynas â'r mater hwn.

Cwestiynodd y Panel a fyddai Swyddogion rheng flaen yn cael eu heffeithio gan yr arbedion effeithlonrwydd / toriadau angenrheidiol. Hysbyswyd yr Aelodau fod adolygiadau o weithgaredd busnes yn dal i gael eu hystyried, fodd bynnag, byddai angen i'r strategaeth blismona ymateb i'r hinsawdd ariannol bresennol. Byddai unrhyw newidiadau i blismona rheng flaen yn cael ei drafod rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid hefyd fod y tanwariant posibl mewn perthynas â gwaith Ffrensig o ganlyniad i arferion gwaith newydd, a fyddai'n fwy effeithiol.

PENDERFYNWYD-
Nodi'r adroddiad.

129. **AMSERLEN AR GYFER Y PRAESEPT PLISMONA ARFAETHEDIG 2015/16**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad, a oedd yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys canllaw'r Swyddfa Gartref a'r amserlen statudol ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd (PCP).

Cynigwyd byddai'r Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r Panel am lefel y praesept arfaethedig ar gyfer 2015/16 ar 12 Ionawr 2015, un wythnos cyn cyfarfod y Panel ar 19 Ionawr 2015.

PENDERFYNWYD-

Bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 yn cael ei chymeradwyo.

130. **YMATEB I YMGYNGHORIAD AR RAGLEN AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH EI MAWRHYDI AR GYFER AROLYGIADAU CYSON YR HEDDLU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) yr ymateb arfaethedig i Banel yr Heddlu a Throsedd i ymgynghoriad cyhoeddus Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ar ei rhaglen newydd ar gyfer arolygiadau cyson ar yr heddlu.

Roedd y HMIC yn datblygu rhaglen newydd ar gyfer arolygiadau o agweddau ar blismona o ddydd-i-ddydd ym mhob heddlu. Byddai hyn yn galluogi HMIC i astudio'r hyn sy'n digwydd ar y tir yn ardaloedd yr heddlu, nodi a lledaenu arfer gorau ymhlith heddluoedd, a chynyddu'r cyfleoedd y bydd unrhyw broblemau neu fethiannau yn y gwasanaeth yn cael eu darganfod yn gynnar, er mwyn i bethau cael eu rhoi'n iawn cyn iddynt fynd yn fwy difrifol o ran niwed a chost.

Mae'r dyddiad cau i'r ymgynghoriad wedi'i ymestyn i ddydd Gwener, 12 Medi 2014; felly gan fod yr adroddiad hwn yn ddogfen gyhoeddus, mae copi drafft o'r ymateb wedi'i gyflwyno i HMIC, a bydd unrhyw newidiadau a wneir gan y Panel yn cael eu hanfon ymlaen at HMIC yn dilyn hynny. Roedd y Cyfarwyddwr Strategol wedi cynghori'r HMIC am y dull hwn o weithredu.

Mewn perthynas i Gwestiwn 2 - *A oes unrhyw agweddau eraill ar waith yr heddlu yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn arolygiadau PEEL*, dwedodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oedd unrhyw gyfeiriad at weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, cyhoeddus neu fel arall, o ran o agweddau ar gyfrifoldebau'r Heddlu megis y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Bwrdd Iechyd Lleol, Fforwm Gwytnwch Lleol, Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

PENDERFYNWYD -

Bod y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad ar raglen Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer arolygiadau cyson yr heddlu.

131. **ADOLYGIAD O AELODAETH PANEL YR HEDDLU A THROSEDD (I DDILYN)**

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) yr Aelodau y byddai adolygiad o aelodaeth Panel yr Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnal yn dilyn y newidiadau gwleidyddol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Panel yn dilyn cyfarfod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac isetholiadau a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

132. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd rhaglen waith i'r dyfodol ddrafft ar gyfer 2014/15 a 2015/16 i'r Panel yr Heddlu a Throsedd (PCP).

Byddai'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor yn newid y rhaglen i gynnwys adroddiadau ar We-ddarlledu cyfarfodydd PCP; Adolygiad o Aelodaeth a Gweithio mewn Partneriaeth.

Gwnaeth y Cyngorydd Bob Dutton OBE gyfeiriad at neges e-bost a dderbyniodd gan un o'i gyd-Gynghorwyr, yn cwestiynu sylwadau a wnaed mewn perthynas â Charchar Gogledd Cymru.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) yr Aelodau, os oedd unrhyw gwestiynau ar gyfer y PCC, y dylid eu hanfon ato yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy cyn cyfarfodydd y PCP, fel y gellid eu trin mewn modd priodol.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn amodol ar gynnwys yr eitemau a amlygwyd uchod.

133. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Bydd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 10 Tachwedd 2014 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm)

Diweddariad i'r Panel Heddlu a Throseddu 15 Rhagfyr 2014

Winston Roddick CB QC, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gogledd Cymru

Dyma fy adroddiad i'r panel am y cyfnod 1 Medi 2014 i ganol mis Tachwedd 2014. Nid yw'r adroddiad yn trafod gofynion adrodd statudol benodol o ran y praesept, penodiadau yn fy swyddfa, diwygiadau i fy nghynllun heddlu a throseddu nac yn cynnwys fy adroddiad blynyddol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) ar gyfer Gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei gyfrannu i'r panel er mwyn cyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

Adran Un: Fy adroddiad craffu i o Ogledd Cymru

Pwrpas yr adran hon yn fy adroddiad yw dangos sut yr wyf wedi bod yn cyflawni fy mhrif swyddogaeth o graffu Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n gwneud hynny trwy fesur perfformiad yr heddlu o'r pedwar amcan yn fy nghynllun yn erbyn y mesurau a nodir. Y cynllun a'r prif gyfrwng a ddefnyddir i gyflawni'r swyddogaeth honno yw'r bwrdd gweithredol strategol (BGS) - rwy'n cadeirio'r bwrdd sydd hefyd yn cynnwys y prif gwnstabl a'i uwch swyddogion fel aelodau.


Cyn pob cyfarfod o'r bwrdd hwnnw, mae'r prif gwnstabl yn darparu ystadegau troseddu a gwybodaeth arall gan gynnwys graffiau, tablau a siartiau (o'r math a ddangosir isod) ac mae'n debyg y byddaf yn craffu perfformiad trwy gyfeirio at yr ystadegau a'r tueddiadau hyn yn ogystal â'r mesurau a grybwyllwyd yn gynharach. Am resymau amlwg, byddwn yn fwy pryderus pe bai'r duedd yn wael yn hytrach na da ond rwyf hefyd yn craffu tueddiadau da gan y gallwn ddysgu o'r rhain am y gwelliannau a sut y gallem wella'r rhai sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn y mesurau hyd at fis Hydref 2014, a hefyd adroddiad yr ail chwarter ar '[Work Streams to support the Police and Crime Plan](#)' a baratowyd gan y prif gwnstabl.


Amcan 1 yr Heddlu a Throseddau: Atal Trosedd

Defnyddir pedwar mesur i fesur perfformiad yr amcan hwn. Y pedwar mesur yw 'lefel yr holl droseddau', 'lefel y troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr', 'lefel y troseddau a gafodd eu datrys yn ôl math' a 'lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG). Ni ddylid edrych ar y mesurau fel targedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i gwestiynu ffigurau perfformiad ac i dynnu sylw at y prif faterion y byddaf yn eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud yr asesiad hwnnw.


Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y prif gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a'r troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd bob 3 mis ers mis Ebrill 2010:



Ffigur 1: Trosedd a Gofnodwyd yn Fisol a'r Cyfartaledd Treigl hyd at Fedi 2014 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigur 2: Trosedd a Gofnodwyd yn Fisol a Chyfartaledd Treigl i bob 1000 o'r Boblogaeth hyd at Fedi 2014 (ffynhonnell Heddlu Gogledd Cymru)



Ffigur 3: Troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r ffigurau diweddaraf a ddarparwyd i mi gan yr heddlu (ar ddechrau mis Hydref 2014) yn dangos bod yr holl troseddau wedi gostwng o 0.6% (blwyddyn hyd yn hyn) a'r troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr wedi gostwng o 0.1%. Perfformiad yn parhau i symud mewn cyfeiriad cadarnhaol, ac mae hyn yn cymharu â chynnydd o 1% mewn troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr ar gyfer y flwyddyn hyd yma a adroddwyd yn yr adroddiad i gyfarfod diwethaf y panel (15 Medi).

Mae'r siart isod yn dangos bod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu rhwng mis Mai a mis Awst 2014, ond o edrych ar y siart mae'n amlwg bod hynny'n rhan o duedd dymhorol. Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn awr yn dangos gostyngiad o 12.4% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er mwyn rhoi'r gostyngiad mewn cyd-destun, ym mis Medi 2012, roedd 3.11 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u cofnodi i bob 1000 o'r boblogaeth, ym Medi 2013, roedd 2.76 o achosion, ac ym Medi 2014, roedd 2.63 fesul 1000 o'r boblogaeth.



Ffigur 3: Achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn fisol (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r prif gwnstabl wedi fy hysbysu y bydd ein timau plismona cymdogaeth yn ymdrechu i barhau â'r perfformiad hwn drwy gynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyfnod y Nadolig.

Cyflwynwyd y canlyniadau trosedd newydd ym mis Ebrill 2014, ac mae'r data a ddarparwyd gan y prif gwnstabl hyd at Hydref 2014 yn cael ei arddangos yn y tabl isod. Mae'r broses ddiwygiedig ar gyfer cofnodi canlyniadau wedi bod ar waith ers rhai misoedd bellach ac yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Corff Amgylcheddol Sengl byddaf yn ymgymryd â gweithgarwch craffu manwl o'r data hwn.

		1.1.1. Violence with injury	1.1.2. Violence without injury	1.2.1. Rape	1.2.2. Sexual offences (excluding rape)	1.3.1. Domestic Burglary	1.3.2. Non Domestic Burglary	1.3.3. Robbery	1.3.4. Vehicle Crime	1.3.5. Shoplifting	1.3.6. Other stealing	1.4.1. Criminal damage & Arson	Victim Based Crime
1	Charged/Summonsed	23.2%	18.2%	2.1%	9.9%	10.2%	4.9%	27.7%	9.8%	40.6%	4.2%	10.2%	15.5%
2	Caution - Youth	1.3%	0.6%	0.0%	1.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.9%	0.4%	0.7%	0.6%
3	Caution - Adult	3.3%	3.2%	0.0%	1.3%	0.2%	0.6%	0.0%	0.5%	3.2%	1.3%	1.9%	2.0%
4	TIC	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.6%	0.2%	0.0%	0.1%	2.7%	0.0%	0.0%	0.4%
5	Offender Died	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
6	PND	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	5.2%	0.0%	0.2%	0.7%
7	Cannabis Warning	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
8	Community Resolution	6.2%	5.5%	0.0%	0.0%	0.3%	0.3%	0.0%	0.2%	12.3%	2.6%	3.8%	4.5%
9	CPS Not in Public Interest	2.1%	0.9%	0.0%	0.6%	0.2%	0.0%	1.5%	0.1%	0.0%	0.1%	0.1%	0.5%
10	Police Not in Public Interest	1.8%	4.7%	0.0%	4.2%	0.0%	0.2%	0.0%	0.1%	0.9%	0.8%	0.5%	1.4%
11	Suspect Below Age of Criminal Responsibility	0.8%	0.7%	0.0%	1.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.1%	0.0%	0.4%	0.3%
12	Named Suspect Too Ill	0.3%	0.5%	0.0%	0.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.1%	0.0%	0.3%	0.2%
13	Named Suspect - Victim/Witness Too Ill	0.1%	0.2%	0.0%	0.0%	0.0%	0.1%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.1%
14	Evidential Difficulties - Victim Declines or is Unable to Support	2.3%	1.8%	3.1%	1.0%	0.5%	0.4%	1.5%	0.7%	0.5%	1.3%	1.1%	1.2%
15	Evidential Difficulties - Victim Supports	9.9%	9.5%	8.4%	7.7%	3.7%	2.3%	10.8%	1.1%	2.0%	2.9%	2.6%	4.7%
16	Evidential Difficulties - Victim Withdrawn Support	20.0%	29.3%	11.5%	15.7%	1.2%	0.4%	3.1%	0.7%	1.1%	4.1%	6.4%	9.5%
17	Time Limit Expired	0.2%	0.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.1%
18	Investigation Complete - No Suspect Identified	5.9%	4.5%	0.0%	5.4%	52.0%	69.3%	13.8%	69.3%	16.7%	61.6%	55.8%	37.8%
	Yet to be Allocated	22.7%	20.1%	74.9%	52.1%	31.2%	21.2%	41.5%	17.4%	13.5%	20.5%	16.2%	20.6%
	Sum:	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Bu rhai newidiadau nodedig mewn rhai categorïau troseddau craidd yr wyf wedi bod yn monitro yn ofalus. Mae'r cyntaf yn y categori troseddau treisgar. Mae'r flwyddyn hyd yn hyn lle defnyddir y ffigurau mwyaf diweddar sef ffigurau wythnos 27 (1 Ebrill 2014- 6 Hydref 2014) yn dangos bod yna gynydd o 6.9% (152 o droseddau) yn y categori trais gyda throseddau anaf, a chynnydd o 10.7% mewn trais heb anaf (242 o droseddau). Mae hyn yn cyfateb i gynydd yng nghyfanswm y trais o 8.8% (cynnydd o 394 o droseddau).

Er bod y ffigurau uchod yn gadarnhaol o gymharu â chynnydd o 30% mewn trais heb anaf ym mis Mai 2014, mae'n rhaid i mi gadw mewn cof bod Gogledd Cymru yn parhau i weld cynnydd o 8.8% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Yng ngoleuni hyn rwy'n parhau i gyflawni gweithgareddau craffu cyfnodol er mwyn sicrhau bod y cynnydd a brofir yn parhau i ostwng. Credaf fod y cynnydd a brofwyd hyd yma yn adlewyrchu llwyddiant y gwaith plismona cydgysylltiedig a gynlluniwyd i fynd i'r afael â throseddau treisgar ledled ardal yr heddlu. Er fy mod yn hyderus bod y data

diweddaraf yn dangos bod y strategaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau troseddau treisgar, yr hyn yr wyf yn bwriadu ei wneud yw craffu ymhellach er mwyn sicrhau bod ardaloedd sydd â lefel uchel o risg yn cael eu blaenoriaethu yn hytrach na defnyddio strategaethau eang ar draws y rhanbarth cyfan.

Ar hyn o bryd mae'r canran byrgleriaeth annedd wedi gostwng 16.3% gyda gostyngiad o 14% mewn byrgleriaeth arall. Mae'r gostyngiadau hyn yn dangos ymrwymiad cryf yr heddlu i flaenoriaethu'r broses o atal a chanfod troseddau o'r fath. O ganlyniad i weithgarwch craffu diweddar, rwy'n edrych i mewn i'r nifer o ymchwiliadau i fyrgleriaeth aneddau a gwblhawyd heb adnabod unigolion a ddrwgdybir.

Bu gostyngiad bychan yn y nifer sydd wedi bod yn dwyn o siopau ers fy adroddiad diwethaf i'r panel. Mae hyn yn dangos bod perfformiad yn symud i'r cyfeiriad iawn. Fodd bynnag, mae dwyn o siopau yn dal i gyflwyno cynnydd o 11.8% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gallai cyfnod y Nadolig weld cynnydd pellach yn y math hwn o drosedd; ac felly rwy'n sicr y bydd ymgyrch plismona rhagfynegol ar waith i gefnogi'r cymunedau busnes yn y cyfnod cyn y Nadolig.

Gan fod y rhan fwyaf o achosion o ddwyn mewn siopau yng ngogledd Cymru yn digwydd mewn archfarchnadoedd, nid yw cynnydd mewn achosion o ddwyn mewn siopau o reidrwydd yn cael yr un effaith ar hyder y cyhoedd fel y mae cynnydd mewn byrgleriaeth yn ei gael, fodd bynnag, mae dwyn o siopau yn aml yn drosedd sy'n tynnu sylw at droseddwyr sy'n weithgar yn yr ardal neu sydd angen cefnogaeth. Rwy'n credu bod angen ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol o ddwyn mewn siopau, yn enwedig camddefnyddio cyffuriau a materion iechyd meddwl.

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd [Office for National Statistics](#) ddata Arolwg o Drosedd yng Nghymru a Lloegr (CSEW) ar gyfer y flwyddyn yn diweddu Mehefin 2014. Mae'r ffigurau isod wedi eu rhyddhau cyn y ffigurau a ddarperir o fewn yr adran hon o'r adroddiad. Yn nata CESW gwelwyd cynnydd mewn 13 allan o 21 o gategorïau troseddau rhwng Mehefin 2013 a Mehefin 2014 yng ngogledd Cymru. Mae'r ffigurau ar gyfer cyfanswm y troseddau yng ngogledd Cymru wedi cynyddu o 1% o fewn y cyfnod hwnnw. Ar gyfer y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer cyfanswm y troseddau a gofnodwyd gan gynnwys twyll gwelwyd 0% newid a gwelwyd gostyngiad o 1% yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd heb gynnwys Twyll.

Mae'r tabl isod yn dangos y gostyngiad mewn troseddau a gofnodwyd yng ngogledd Cymru o'i gymharu â chyfartaledd Cymru ac yn Genedlaethol:

Troseddau	HGC % Newid	Cyfartaledd Cymru (%)	Cyfartaledd Cenedlaethol (%)
Trais gydag Anaf	-1	7	8
Byrgleriaeth	-4	-4	-4
Byrgleriaeth Anomestig	-8	-5	-2
Troseddau Cerbydau	-7	-8	-5
Dwyn Beiciau	-9	14	1
Unrhyw drosedd arall o Ddwyn	-1	0	-5
Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol	-5	-3	-5

Trefn Gyhoeddus	-15	6	6
------------------------	------------	----------	----------

Mae'r tabl isod yn dangos y gostyngiadau mewn troseddau a gofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru o'i gymharu â chyfartaledd Cymru ac yn Genedlaethol:

Troseddau	HGC % Newid	Cyfartaledd Cymru (%)	Cyfartaledd Cenedlaethol (%)
Trais yn erbyn y person	9	17	11
Trais yn Heb Anaf	20	31	15
Troseddau rhywiol	10	26	21
Lladrad	3	-2	-10
Achosion o Ddwyn	1	-1	-4
Byrgleriaeth ddomestig	1	-2	-7
Dwyn gan Berson	2	-17	-16
Dwyn o siopau	17	6	5
Troseddau Cyffuriau	4	-12	-7
Meddu ar Arfau Ymosodol	12	-8	5
Troseddau Amrywiol	5	18	9

Roedd y cynnydd uchaf mewn trais heb anaf, dwyn o siopau, troseddau rhywiol a meddu ar arfau bygythiol.

O fewn yr amcan heddlu a throsteddu hwn, mae pum ffrwd waith wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu'r prif gwnstabl, gan gynnwys datblygu a gweithredu cynllun heddlu a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer 2014/15, gan ddatblygu'r broses o adnabod ffactorau risg pellach i bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu yn ddifrifol ar ein ffyrdd mewn partneriaeth ag eraill er mwyn canolbwyntio ar weithgareddau atal a gorfodi, a datblygu model i nodi ac ymateb i bobl neu deuluoedd sy'n cael effaith anghymesur ar wasanaethau cyhoeddus. Rwy'n craffu ar y cynnydd a wnaed ac ar y gwaith o ddatblygu pob un o'r ffyrddiau gwaith hyn trwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol.


Rwyf hefyd yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach gyda phartneriaid a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i sicrhau ein bod yn adnabod ac yn ymateb i bobl sy'n cael effaith anghymesur ar wasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â nodi achosion sylfaenol nifer o droseddau, ac ein bod yn eu defnyddio o fewn blaenoriaethau a ffyrddiau gwaith ym mhob ardal

Amcan 2 yr Heddlu a Throsteddu: Darparu ymateb effeithiol

Mae tri mesur yr amcan hwn wedi'u nodi yn fy nghynllun sef: (1) yr amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer presenoldeb mewn argyfyngau heddlu; (2) swm y galwadau di-argyfwng a gofnodir fel galwadau â anghofir amdanynt; ac (3) yr adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr.


Flwyddyn ar ôl blwyddyn, bu gostyngiad yn nifer y galwadau o 6.9%, i lawr o 41,644 i 38760. Yr amser ymateb ar gyfartaledd ar hyn o bryd yw 14.35 munud, o'i gymharu â 16.43 munud ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

Mae'r siart isod yn rhoi trosolwg o'r amseroedd ymateb ar gyfartaledd.



Ffigur 5: Amseroedd ymateb brys ar gyfartaledd yn wythnosol (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)


Mae'r gyfradd rhoi'r gorau ar alwadau sydd ddim yn alwadau argyfwng, sydd hefyd yn disgyn i gael ei fesur o dan yr amcan trosedd, yn fater craffu yn gyson, ac ar hyn o bryd yn 2.1%



Ffigur 6: Cyfradd galwadau di-argyfwng sy'n cael eu anghofio yn wythnosol (ffynhonnell... Heddlu Gogledd Cymru)

Byddaf yn derbyn arolygon bodlonrwydd dioddefwyr yn chwarterol. Mae'r canlyniadau diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mehefin 2014, yn dangos bod 'bodlonrwydd dioddefwyr gyda 'rhwyddineb cyswllt' yn uchel iawn ac yn cynyddu (ar hyn o bryd mae 97% yn fodlon neu'n fodlon iawn), a bod y boddhad gyda'r 'camau a gymerwyd' wedi cynyddu o 77% a adroddwyd i'r Panel yn fy adroddiad ym mis Medi 2014 i 82%. Roedd boddhad dioddefwyr ynglŷn â'r profiad cyfan yn 83% ar ddiwedd mis Mehefin 2014.

User Satisfaction with Whole experience: Qtr 1 2006/07 to Q1 14-15



Figur 7: Boddhad defnyddwyr yn gyffredinol bob chwarter (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Yng nghyfarfod Mehefin 2014 o'r panel mynegais y gobaith y byddai cyflwyno a gweithredu cod ymarfer newydd ar gyfer dioddefwyr yn gwella cyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr. Mae'r prif gwnstabl wedi fy hysbysu bod yr holl staff gweithredol bellach wedi derbyn llyfryn maint poced i roi cyngor ar eu cyfrifoldebau o dan god ymarfer y dioddefwyr; mae taflen ar ddiodefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gael i swyddogion sy'n ymweld â dioddefwyr gan eu cynghori ar yr hyn sydd ar gael iddynt ac yn gweithredu hefyd fel nodyn atgoffa i'r swyddog ynghylch yr hyn y dylent gytuno iddo a'i wneud; ac mae cydymffurfio â'r cod ymarfer bellach yn gysylltiedig ag adolygiadau o berfformiad swyddogion. O'r adroddiad chwarterol diweddaraf a ddarparwyd i mi gan y prif gwnstabl ar gynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith yr heddlu a chynlluniau troseddu, mae'n amlwg bod y gwaith monitro a rheoli cydymffurfiaeth â'r cod wedi cael ei ymgorffori i fusnes craidd yr heddlu ac yn wir yn cael effaith ar foddhad dioddefwyr.

Mae Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu bellach yn eistedd ar Bwyllgor Moeseg, Arweinyddiaeth a Diwylliant yr Heddlu. Pwrpas y pwyllgor yw sicrhau bod yr Heddlu yn gweithredu'r 'Cod Moeseg Gwasanaeth yr Heddlu' newydd yn effeithiol.


Amcan 3 yr Heddlu a Throseddu: Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae gan fy nghynllun ddau fesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr heddlu o'r amcan hwn. Sef: nifer y bobl a laddwyd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a'r lefel o droseddu dro ar ôl tro. Rwy'n ailystyried y mesurau yn fy niwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn hyd yma (hyd at ddiwedd mis Medi 2014) ar gyfer y rhai a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd ar hyn o bryd yn uwch na ffigurau'r flwyddyn

flaenorol (214 o'i gymharu â 190). Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda fy mhartneriaid o fewn yr Heddlu i sefydlu rhesymau dros y cynnydd hwn o 24 KSIs.

Y mesur arall sy'n cael ei fonitro o fewn yr amcan hwn yw'r lefel o droseddau dro ar ôl tro. At ddibenion y mesur hwn mae troseddwr ailadroddus yn cael ei ddiffinio fel unigolyn sy'n cyflawni trosedd ddwywaith neu fwy mewn cyfnod o 12 mis. Mae'r siart isod yn dangos y nifer o droseddau gan droseddwyr ailadroddus ar draws treigl amser o 12 mis, yn hytrach na nifer y troseddwyr unigol. Fel y gwelir o'r siart bu sefydlogrwydd cymharol yn lefel y ffigurau o 'droseddwyr ailadroddus' ers mis Ionawr 2013.



Ffigur 8: Ffigurau troseddau dro ar ôl tro yn fisol (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

O fewn y trydydd amcan heddlu a throedd, mae pum ffrwd waith wedi'u nodi. Byddaf yn craffu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y ffrydiau gwaith hyn trwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol. Mae'r prif gwnstabl a finnau wedi diweddarau'r panel o'r blaen am y bygythiad a berir gan Seiberdrosedd. Fel rhan o'r cynllun lleihau seiberdrosedd sefydlwyd grŵp tasg a gorffen ar gyfer seiberdrosedd yng ngogledd Cymru. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob maes busnes Heddlu Gogledd Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gwasanaeth Eryl y Goron, Coleg Plismona, Siambr Fasnach, Ffederasiwn Busnesau Bach, Prifysgolion Bangor a Glyndŵr ac E-Drosedd Llywodraeth Cymru yn parhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun lleihau a datblygu gwell dealltwriaeth o'r galw presennol ac ar gyfer y dyfodol, a'r cyfleoedd i atal a chanfod seiberdrosedd a'r rheini sy'n ddibynol a'r seiber yng ngogledd Cymru.

Llif gwaith arall o fewn yr amcan hwn yw 'gwella ein gallu i nodi ac i fynd i'r afael â Chamfanteisio Plant yn Rhywiol'. Mae fy rôl o graffu gwaith yr Heddlu wedi dangos bod llawer o waith rhagweithiol yn mynd rhagddo yng ngogledd Cymru i sefydlu cymhwysedd aml-asiantaeth rhagweithiol ar gamfanteisio plant yn rhywiol. Fodd bynnag, o ystyried effaith troseddau o'r fath ar y dioddefwyr, ac amlygrwydd troseddau o'r fath yn y cyfryngau cenedlaethol, mae'n hanfodol fy mod i'n parhau i fonitro perfformiad yr heddlu yn agos yn hyn o beth.

Amcan 4 yr Heddlu a Throseddu – Magu partneriaethau effeithiol

Mae'r amcan hwn yr un mor bwysig ag unrhyw un o'r tri arall, ond nid yw perfformiad yr amcan yn agored i gael ei fesur (yn sicr nid mesur ystadegol), ac nid wyf wedi amodi unrhyw fesurau yn y cynllun ar gyfer mesur perfformiad yr amcan. Y partneriaethau ffurfiol yr wyf yn aelod ohonynt, neu lle mae cynrychiolaeth ar gyfer fy swyddfa, yw'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, Bwrdd Cymunedau Diogelach, y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Pasiwyd Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygiad) 2014 y ddeddfwriaeth gynharach eleni. Mae'r gorchymyn wedi sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fel partner cynllunio cymunedol statudol. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw gan Lywodraeth Cymru, mae ein cysylltiadau â chynllunio cymunedol ar lefel leol wedi gwella ymhellach, ac rydym yn awr yn aelodau o holl fyrddau gwasanaethau lleol gogledd Cymru.

Rwyf wedi cael fy ethol yn gadeirydd Cydbwyllgor Goruchwylio'r Gogledd Orllewin ac yn gadeirydd ar Gyfarfod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu y Gogledd Orllewin. Nod y pwyllgor trosolwg ar y cyd yw darparu fforwm ar gyfer gweithio ar y cyd ac i gyflawni trefniadau llywodraethu yn briodol ar gyfer rhaglenni gwaith cydweithredol sy'n bodoli eisoes. Gellir gweld y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor ar [here](#).

Yn amlwg yn y cyfarfod diwethaf cawsom adroddiadau cynnydd manwl ar waith yr uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol (ROCU) sy'n gweithio i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'r Uned, a elwir yn Titan, wedi lansio [website](#) yn ddiweddar i dynnu sylw at effaith troseddu difrifol a chyfundrefnol a'r grwpiau sydd wedi cael eu dwyn o flaen eu gwell yn sgil gwaith yr unedau.

Cyfarfu'r grŵp plismona Cymru gyfan yn ddiweddar, sydd hefyd yn darparu fforwm ar gyfer gweithio ar y cyd ac i ymarfer ein dyletswyddau llywodraethu dros raglenni cydweithredu sydd eisoes yn bodoli. Mae'r grŵp wedi cytuno ar [Memorandum of Understanding](#) sy'n amlinellu'r dull o lywodraethu gweithgarwch o weithio ar y cyd ar lefel Cymru gyfan.

Mae cyfarfodydd y grŵp yn symud rhwng pedair ardal yr heddlu yng Nghymru. Yn y cyfarfod mwyaf diweddar o Gomisiynwyr Cymru, cytunwyd i nodi meysydd gwaith a allai fod yn addas o bosibl ar gyfer datblygu gwaith cydweithredol newydd.

Troseddu a Phlisma yn eich ardal

Mae gwefan y swyddfa gartref <http://www.police.uk> yn rhoi gwybodaeth ystadegol am ddigwyddiadau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol cyn cyflwyno'r cod ymarfer.

Adran 2: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwyf yn rhoi crynodeb byr i'r panel o'r prif bethau rwyf wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y panel.

Seremoni Gwobrau Cymunedol y Comisiynydd

Cynhaliais Wobrau Cymunedol cyntaf y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Hydref 2014, a daeth nifer o aelodau'r Panel i'r noson wobrwyo i ddathlu ymroddiad a chyfraniad cymunedau ac unigolion ar draws gogledd Cymru.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi teithio ar hyd a lled gogledd Cymru gan gyfarfod pobl, yn unigolion a grwpiau, i drafod materion yn ymwneud â phlisma a throseddu. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth yn amlwg i mi fod nifer fawr o bobl yn gwneud llawer o waith da yn y gymuned i helpu Heddlu Gogledd Cymru ac i gadw gogledd Cymru yn lle heddychlon a diogel i fyw a gweithio. Mae llawer yn mynd yr ail filltir i wneud cyfraniad arbennig a sicrhau bod cymunedau yn ddiogel. Maen nhw hefyd yn cynorthwyo i adsefydlu troseddwyd a chyfrannu'n sylweddol at leihau troseddu. Sefydlaeth y gwobrau i roi cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r arwyr anhysbys sy'n gwneud gwaith gwerthfawr yn y gymuned i leihau troseddu, cadw cymunedau yn ddiogel, cynorthwyo dioddefwyr a hwyluso'r broses adsefydlu. Fy nod wrth sefydlu'r gwobrau oedd cydnabod y gwaith gwych hwn ac annog eraill i efelychu'r esiampl dda a osodwyd ganddynt.

Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Cinmel Manor, Abergele ar 23 Hydref, yn ddathliad gwirioneddol o'r gwaith arbennig o dda sy'n digwydd ar draws cymunedau yng ngogledd Cymru. Mae'r enillwyr yn bobl wirioneddol arbennig ac roeddwn yn teimlo ei fod yn bwysig i dynnu sylw at y gwaith da y maen nhw'n ei wneud i gadw gogledd Cymru yn lle diogel i fyw a gweithio. Mae'r fenter hon wedi cael derbyn da gan y cymunedau rwyf yn eu gwasanaethu a hefyd gan y partneriaid rwyf yn gweithio ochr yn ochr â nhw. Rwyf yn bwriadu cynnal seremoni wobrwyo arall y flwyddyn nesaf i dynnu sylw at y gwaith a'i wobrwyo.

Mae manylion am [enillwyr y gwobrau](#)ⁱ ar gael ar fy ngwefan

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Un elfen o fy ngwaith yw darparu gwybodaeth i'r gymuned a dull o ymgysylltu â phlisma. Ers cyfarfod diwethaf y panel rwyf wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'm rôl a rhoi cyfle i gymunedau gogledd Cymru ddweud eu dweud am droseddu a phlisma. Dyma rai uchafbwyntiau o'r misoedd diwethaf:

Ym mis Medi, ymwelais â Mantell Gwynedd yng Nghaernarfon i esbonio fy rôl a'm cyfrifoldebau ac i drafod sut rydym yn bwriadu cydweithio yn y dyfodol fel yr amlinellwyd yn y [Cytundeb Compact](#)ⁱⁱ a gytunais â Chyrff y Trydydd Sector. Hefyd, bûm yn cyfarfod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi Cymru i drafod y cynlluniau arfaethedig i greu cyfleuster plisma newydd yn Wrecsam, a datblygiadau yn ardaloedd ynadon lleol Wrecsam a Sir y Fflint. Hefyd, cefais gyfle i gyfarfod cynrychiolwyr y Gymuned Asiaidd.

Rwyf wedi parhau i ymweld â'r ymgeiswyr llwyddiannus a dderbyniodd nawdd dan gynllun cyllidebu cyfranogol y llynedd, sef Grŵp Teledu Cylch Cyfyng Abermaw, a oedd hefyd yn llwyddiannus yn y noson Gwobrau cymunedol.

Ym mis Hydref, cefais gyfarfod â chynrychiolwyr Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru, yn ogystal â chyfarfod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor Trosolwg y Gogledd Orllewin, Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a chyfarfod Cyllid ac Adnoddau y Grŵp Aur.

Cefais wahoddiad i draddodi anerchiad gerbron Sefydliad Cymru'r Gyfraith ynglŷn â'r newidiadau sydd wedi dod i ran y drefn blismona yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig yng ngogledd Cymru, ynghyd â chodi rhai cwestiynau perthnasol am weddnewidiad posibl yn y dyfodol.

Ym mis Tachwedd, fe wnes i gyfarfod Alison Saunders, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, i drafod materion yn ymwneud â chyfiawnder troseddol yn gyffredinol ac yn benodol unedau gofal tystion, amserlenni achosion llys, cyfraddau euogfarnau ac ansawdd ac effeithioldeb. Cefais gyfarfod ag Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr i drafod materion sy'n achos pryder iddo a bŵm yn annerch y Myfyrwyr Cyfiawnder Troseddol, yn ogystal â chynnal meddygfa gyhoeddus yn Wrecsam ar 5 Tachwedd. Fe wnes i hefyd gyfarfod cynrychiolwyr o Cymorth i Fenywod i drafod fy strategaeth gomisiynu ynghyd â chynrychiolwyr o'r cynghorau gwirfoddol.

Yn ogystal â'r uchod, rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd â sawl AS ac AC, ac wedi mynychu sawl cyfarfod gyda'n rhanddeiliaid a phartneriaid, megis Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint, a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, yn ogystal â chyfarfod cynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rwyf wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau allweddol yn y cyfryngau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

[Arian a atafaelwyd gan droseddwyr yn rhoi hwb i gynllun TCC y dref](#)ⁱⁱⁱ

[Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn annog pobl i adrodd am Droseddau Casineb](#)^{iv}

[Pennaeth yr heddlu yn dweud y gall elusennau fod o gymorth i atal troseddu](#)^v

Erthyglau 'News North Wales': '[Balchder cyn-adict wrth ennill gwobr ymdrech](#)' a '[Gŵr busnes o Wrecsam yn mynd yn groes i'r disgwyl ac yn ennill gwobr](#)'

Erthygl 'News Wales': '[Gwobr am wneud Abermaw yn dref mwy diogel](#)'^{vi}

Yr Adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu

Ar hyn o bryd, rwyf yn y broses o adolygu fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Fel y gŵyr y panel, rwyf wedi ymroi i adolygu'r cynllun heddlu a throseddu yn rheolaidd, ac i'r perwyl hwn rwyf wedi gwahodd aelodau o'r cyhoedd a phartneriaid i gyflwyno eu sylwadau unwaith yn rhagor am y cynllun heddlu a throseddu presennol a mynegi eu barn ar faterion yn ymwneud â throseddu a phlisma yn fwy cyffredinol.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 10 Hydref, ac yn wreiddiol roeddwn yn bwriadu dod â'r cyfnod ymgynghori i ben ar 18 Rhagfyr. Fodd bynnag, er mwyn rhoi mwy o amser i'r partneriaid a'r cyhoedd ymateb rwyf wedi penderfynu ymestyn y cyfnod ymgynghori hyd 7 Ionawr.

Ar hyn o bryd y bwriad yw cyflwyno cynllun diwygiedig gerbron cyfarfod y panel ar 19 Ionawr.

Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu

Gofynnodd y Panel am gael eu hysbysu ynglŷn â gwaith y dirprwy gomisiynydd. Mae'r dirprwy gomisiynydd yn gwbl ymroddedig ac yn effeithiol iawn wrth ymateb i fy rhaglen waith drom, y rhoddir manylion amdani isod:

Ers cyfarfod diwethaf y panel ar 15 Medi 2014, mae'r dirprwy gomisiynydd wedi parhau i fy nghynorthwyo â'm swyddogaethau statudol a gweinyddol niferus, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (OPCC) a mynychu nifer o gyfarfodydd eraill.

Er enghraifft, bu'n bresennol mewn cyfarfodydd ymgynghorol â chynrychiolwyr yr heddlu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydlynnydd Atal Caethwasiaeth Gogledd Cymru, ynghyd â chyfarfodydd Bwrdd Cynllunio Strategol yr heddlu, a bu'n craffu ar gyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau. Yn ystod y cyfarfod â Chydlynnydd Atal Caethwasiaeth Gogledd Cymru ar 7 Tachwedd, rhoddwyd gwybodaeth ddiweddarar fanwl i'r dirprwy gomisiynydd ynglŷn â phedair elfen o'r gwaith atal caethwasiaeth, sef codi ymwybyddiaeth, llwybr y dioddefwyr, atal ac ymchwilio, ac ymgynghorwyd â'r Cydlynnydd fel rhan o adolygiad y Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2015/16.

Ers y tro diwethaf i ni gyfarfod, bu hefyd yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru i drafod materion yn ymwneud â chamdddefnyddio sylweddau, Uwchgynhadledd TG yr Heddlu, cyfarfod Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Bwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, Grŵp Plismona Cymru, Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd/Môn, a bu'n cyfarfod cynrychiolwyr Teledu Cylch Cyfyng yr Awdurdodau Lleol, a chynrychiolwyr y gymuned Asiaidd yn Wrecsam.

Ym mis Hydref, bu'n cyfarfod cynrychiolwyr yr Heddlu i drafod Cronfa'r Comisiynwyr ar gyfer 2015/16 a hefyd cyfarfu â Rheolwr Fflyd yr Heddlu i drafod dyluniad cerbydau i gario pobl dan gadwad, ynghyd â chadeirio cyfarfod y Strategaeth Integredig i Ddioddefwyr, sef grŵp sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu gwaith prosiect y dioddefwyr sy'n cefnogi fy nghyfrifoldeb statudol i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr yng ngogledd Cymru o fis Ebrill 2015.

Mae'r dirprwy gomisiynydd hefyd wedi cyfarfod y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Jan Williams, Comisiynydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yng Nghymru a'r Gorllewin, ac Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam.

Yn ystod cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Heddlu Gogledd Cymru ar 15 Hydref, nododd y dirprwy gomisiynydd y diweddariad a roddwyd ar yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad arolygu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar integriti data troseddu yng ngogledd Cymru.

Comisiynu

Fel y gŵyr y panel, o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, gallaf gomisiynu prosiectau neu wasanaethau priodol a fydd yn lleihau troseddau ac a fydd o gymorth i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau yn lle diogel. Byddaf yn rhoi adroddiad manwl i'r Panel am fy ngweithgareddau comisiynu yn 2015/16 fel rhan o'r rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi penodi swyddog comisiynu sydd ar hyn o bryd yn adolygu'r gwasanaethau a fydd yn cael eu comisiynu trwy fy [fframwaith comisiynu](#)^{vii}.

Un maes gwaith arwyddocaol a ddatblygwyd gennyf yw'r gwaith paratoi ar gyfer y newid yn y broses o gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr troseddau. Rwyf eisoes wedi hysbysu'r Panel am y gwaith a wnaethpwyd i adnabod angen yng ngogledd Cymru, ac yn dilyn hyn rydym wedi bod yn cynllunio strategaeth integredig i ddiodefwyr. Rwyf wedi sefydlu bwrdd prosiect i symud ymlaen â'r strategaeth hon, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Gomisiynydd, ac mae aelodau'r bwrdd wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau'r ddau ddewis ar gyfer fy ystyriaeth a fydd yn golygu bod modd comisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr yng ngogledd Cymru yn lleol i fodloni anghenion ein cymuned.

Cyllideb

Mae'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys adroddiad sy'n amlinellu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd mis Medi 2014. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant bychan (£360k), felly credaf fod y penderfyniad i godi Treth y Cyngor 2% y llynedd yn parhau'n briodol.

Gan edrych ymlaen i'r dyfodol, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer arbedion cyllidebol yn 2015/16 a thu hwnt yn mynd rhagddo. Rwyf yn disgwyl y byddaf yn derbyn newyddion am ddyraniadau grant y llywodraeth ganolog ar 17 Rhagfyr. Yn ogystal â thoriad termau real o 5%, awgryma'r rhagolygon cynnar y bydd brigdoriadau sylweddol i ddarparu arian ychwanegol ar gyfer, er enghraifft, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a Chronfa Arloesedd yr Heddlu. Hyd nes y derbynnir y setliad, nid yw'n bosibl i mi ddweud wrth y panel beth yw fy mwriad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, byddaf yn ymwybodol o fy holl gyfrifoldebau yn y cyswllt hwn: yr angen i baratoi cyllideb gytbwys; fy nghyfrifoldeb i drethdalwyr lleol i sicrhau bod unrhyw godiad yn rhesymol; a'r angen i sicrhau y gellir cyflenwi fy Nghynllun Plismona a Throseddau yn effeithiol.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma

Cyflwynodd y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma ddau fesur newydd i geisio mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; sef Camau Unioni Cymunedol a'r Sbardun Cymunedol. Yng nghyfarfod diwethaf y panel, dywedais fy mod yn cynnal ymarferiad ymgynghori i ddatblygu '*Camau Unioni Cymunedol*'.

Mae Camau Unioni Cymunedol yn rhoi cyfle i ddiodefwyr roi eu barn am y camau y dylid eu cymryd y tu allan i'r llysoedd wrth ymdrin â throseddau sydd wedi cyflawni troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu rhanbarth. Roedd y Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau i ymgynghori â'r gymuned leol i benderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol i'w cynnwys ar y rhestr o gamau unioni cymunedol. Rhwng 11 Awst ac 13 Hydref cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar fy ngwefan yn gofyn am sylwadau'r gymuned leol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg yn y cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg.

Derbyniwyd cyfanswm o 215 ateb cyflawn i'r arolwg, a dywedodd 97% o'r rhieni a atebodd eu bod yn byw yng ngogledd Cymru. Pan ofynnwyd iddynt a oeddynt o'r farn fod cyfiawnder adferol yn ffordd gadarnhaol o ymdrin â throeddwy'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddau lefel isel, dywedodd 55% (93/170) eu bod yn cytuno.

- Roedd yr arolwg yn cynnig 10 dull adferol posibl, y mwyaf poblogaidd oedd:
 - lawndal – roedd 95% o blaid, a
 - Gwneud iawn i'r gymuned – roedd 94% o blaid.
- Y lleiaf poblogaidd oedd:
 - Cynhadledd cyfiawnder adferol ('shuttle') (y swyddogion yn siarad â'r dioddefwr a'r troseddwr ar wahân gan nad yw'r dioddefwr eisiau cyfarfod y troseddwr wyneb yn wyneb) – dim ond 42% o blaid
 - Ymddiheuriad ysgrifenedig - dim ond 60% o blaid.

Roedd y cwestiwn olaf yn rhoi cyfle i'r cyhoedd awgrymu dulliau eraill. Y mwyaf cyffredin oedd sicrhau bod y troseddwy'r yn gwneud gwasanaeth cymunedol.

Fel rhan o'r ddeddfwriaeth, roedd gofyn i mi hefyd gymeradwyo 'Sbardun Cymunedol' priodol ar y cyd â'r prif gwnstabl. Mae'r Sbardun Cymunedol yn galluogi dioddefwyr i ofyn i'w hachosion gael eu hadolygu os ydynt o'r farn bod y cyrff cyhoeddus perthnasol wedi cymryd camau annigonol neu heb weithredu. Gellir cyflwyno cais ar ôl cyrraedd y trothwy; y trothwy a gytunwyd ar gyfer y Sbardun Cymunedol yng ngogledd Cymru yw 3 digwyddiad mewn 6 mis. Caiff y cais am sbardun ei gyflwyno i'r corff cyhoeddus sydd wedi derbyn pob adroddiad am y digwyddiad neu'r mwyafrif ohonynt. I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan Heddlu Gogledd Cymru.

Cyllideb Gyfranogol

Mewn partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, ac yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi penderfynu ehangu'r fenter wych hon eleni. Mae cyfanswm o £42,000 ar gael yng nghronfa'r gyllideb ar gyfer cyrff sy'n cynorthwyo i fynd i'r afael â throeddau ar draws pob sir. Mae £3,000 yr un ar gyfer dau grŵp ym mhob sir ynghyd â £6,000 ar gyfer grŵp sy'n weithredol ar draws gogledd Cymru.

Cyflwynwyd nifer o geisiadau o ansawdd uchel, cyfarfu'r grwpiau sirol a dewiswyd nifer o ymgeiswyr ar gyfer y rhestr fer. Mae pleidlais gyhoeddus yn cael ei chynnal ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn trwy Heddlu Gogledd Cymru ac ar fy ngwefannau. I gael mwy o wybodaeth am yr ymgeiswyr sydd wedi'u dewis ar gyfer y bleidlais gyhoeddus, cliciwch ar y cysylltiad i'r [wefan](#)^{viii}

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu

Efallai y bydd aelodau'r Panel yn gwybod fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cyfeirio ei hunan i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ar faterion yn ymwneud ag ymgyrch Spade. Bydd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn ymchwilio i'r modd y gwnaeth tri heddlu ymdrin â gwybodaeth gan heddlu Canada a drosglwyddwyd i'r Asiantaeth Droseddau Genedlaethol ac yna i'r heddluoedd lleol. Ar y cam hwn yn yr ymchwiliad ni fyddai'n briodol i mi wneud sylw pellach.

Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Dan statud, mae'n ofynnol i mi gael cynllun ar waith sy'n darparu ar gyfer monitro'n annibynnol y cyfleusterau caethiwo a'r driniaeth a dderbynnir gan bobl sy'n cael eu caethiwo gan yr heddlu.

Rwyf eisoes wedi tynnu sylw'r panel at fy [adolygiad blynyddol](#) o'r cynllun. Ers cyfarfod diwethaf y panel rwyf wedi penderfynu cyfyngu hyd penodiadau'r holl ymwelwyr â dalfeydd i dri chfnod o dair blynedd. Felly, byddaf yn recriwtio ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn rheolaidd yng ngogledd Cymru.

Rwyf wedi dod i'r penderfyniad hwn yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r ymwelwyr â dalfeydd, ac ar ôl ystyried sut i sicrhau lefel briodol o annibyniaeth i'r cynllun er mwyn tawelu meddwl y cyhoedd. Dylid nodi nad yw fy mhenderfyniad yn seiliedig ar faterion yn ymwneud â gwirfoddolwyr unigol, yn hytrach mae gwaith caled aelodau i'r cynllun ymwelwyr â dalfeydd wedi gwneud argraff arnaf a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i'r gwirfoddolwyr.

Gwrandawiadau Camymddwyn yr Heddlu

Mae hyder y cyhoedd yn yr heddlu yn dibynnu ar sicrhau bod ymddygiad swyddogion yr heddlu o'r lefel uchaf o ran safonau personol a phroffesiynol. Mae'n hanfodol felly y caiff unrhyw ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safon uchel hwn ei drin yn ddifrifol. Yng nghyfarfod diwethaf y panel fe amlinellais fy mwriad i recriwtio aelodau annibynnol newydd i gymryd rhan mewn gwrandawiadau camymddwyn. Os caiff ymddygiad swyddog neu gŵyn ynghylch swyddog ei hystyried yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, caiff y mater ei ystyried gan wrandawriad camymddwyn yr heddlu. Fy nghyfrifoldeb i yw cadw rhestr o aelodau annibynnol y gellir galw arnynt i eistedd ar wrandawiadau camymddwyn yng ngogledd Cymru.

Gofynnir i aelodau annibynnol gynorthwyo'r gwrandawiadau camymddwyn i ddod i benderfyniad teg ar sail y dystiolaeth ynglŷn ag ymddygiad swyddog penodol ac i gytuno ar sancsiwn priodol. Ynghyd â'r aelodau eraill, bydd yr aelod annibynnol yn ystyried tystiolaeth gan dystion, yn clywed cyflwyniadau gan bartïon yn ystod y gwrandawriad ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus wrth ystyried y canlyniadau. Rhaid iddynt fod â'r gallu i herio barn uwch swyddogion yr heddlu yn y gwrandawriad mewn modd adeiladol ond heb fod yn wrthwynebiadol.

Un o brif swyddogaethau'r aelodau annibynnol yw tawelu meddwl y gymuned y caiff materion yn ymwneud â chamymddwyn yr heddlu eu trin yn gywir a'u dyfarnu yn annibynnol. Er mwyn diogelu annibyniaeth y broses rwyf wedi recriwtio pum aelod newydd yn ddiweddar i eistedd ar wrandawiadau camymddwyn yr heddlu. Mae aelodau annibynnol yn gweithio ar sail rota ac mae'r penodiad am gyfnod o 5 mlynedd, mae rheolau'r Swyddfa Gartref yn datgan y gellir cynnig ail dymor o 5 mlynedd iddynt ond, yn y pen draw, fy mhenderfyniad i fydd cynnig yr ail dymor ai peidio.

Cyd-bwyllgor Archwilio

Sefydlodd y pris gwnstabl a finnau'r pwyllgor hwn yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Ariannol y Gwasanaeth Heddlu. Mae'r cyfarfodydd yn rhai cyhoeddus ac mae'r papurau [ar gael arlein](#). Yn y cyfarfod ar 23 Medi 2014 fe wnaeth y pwyllgor ystyried y materion a ganlyn:

- Datganiad o gyfrifon terfynol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau,
- Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Terfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Gwerth am arian
- Adroddiad cynnydd yr archwiliad mewnol
- Rheoli risg

Yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd 2014 fe wnaeth y pwyllgor ystyried y materion a ganlyn:

- Adroddiad cynnydd yr archwiliad mewnol
- Rheoli risg
- Adolygiad hanner blwyddyn o waith y pwyllgor
- Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-14 a memorandwm yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol 2013-14

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi eu barn fel archwilwyr ar 2013-14 ac maen nhw wedi cyhoeddi adroddiadau archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14.

Gohebiaeth

Ffigurau gohebiaeth 1 Gorffennaf 2014 – 1 Tachwedd 2014

<i>Math o Ohebiaeth</i>	<i>Nifer</i>
Adborth Penodol yn ymwneud â'r gwasanaeth plismona	37
Adborth Cyffredinol yn ymwneud â'r gwasanaeth plismona	23
Cwynion a gyfeiriwyd i'r Adran Safonau Proffesiynol	7
Materion staffio (gall hyn gynnwys trefniadau ar gyfer paneli camymddwyn, tribiwnlysoedd apeliadau'r heddlu, gohebiaeth gan gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill)	9
Gohebiaeth gyffredinol	264

Adran Tri – Diweddariad ar y camau gweithredu a gytunwyd â'r Panel

Yn yr adran hon, rwyf yn ymdrin â chamau gweithredu sydd eisoes wedi'u cytuno â'r Panel.

Yng nghyfarfod diwethaf y panel gofynnodd yr Aelodau i mi gyflwyno papur mwy manwl ar weithio mewn partneriaeth a'r strategaethau sydd yn eu lle i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona Cymunedol, a byddaf yn paratoi'r papur hwn yn dilyn yr adolygiad o'r cynllun plismona a throseddau ac yn ei gyflwyno i'r panel yn y flwyddyn newydd.

-
- ⁱ <http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/News/News/2014/Community-Awards-Winners.aspx>
- <http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Working-in-Partnership/OPCC-Compact-Agreement-English.pdf>
- <http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/News/News/2014/Money-seized-from-criminals-boosts-towns-CCTV-scheme.aspx>
- ^{iv} <http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/News/News/2014/Police-and-Crime-Commissioner-urges-people-to-report-Hate-Crime.aspx>
- ^v <http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/News/News/2014/Police-boss-says-charities-can-help-prevent-crime.aspx>
- ^{vi} <http://www.newswales.co.uk/index.cfm?section=Community&F=1&id=27999>
- ^{vii} <http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/About-the-Commissioner/Commissioning-Framework.pdf>
- ^{viii} <http://www.north-wales.police.uk/news-and-appeals/vote-to-hit-villains-where-it-hurts-and-support-local-crime-busters.aspx>

EITEM RHAGLEN 5b

Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Teitl:	Cymhariaeth o Gyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Cyfarfod:	Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 15 Rhagfyr 2014
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

1. Cyflwyniad

1.1 Gofynnodd Panel yr Heddlu a Throsedd am wybodaeth ynghylch sut y mae'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cymharu â chyllideb cyn Awdurdod yr Heddlu ar gyfer gogledd Cymru, ac yn cymharu â chymheiriaid.

2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

3. Cymharu â'r Awdurdod Heddlu

3.1 Cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15 yw £0.731 miliwn, sydd heb newid ers 2012/13 (y flwyddyn drosiannol) a'r gyllideb ar gyfer 2011/12 - blwyddyn lawn olaf yr Awdurdod Heddlu.

3.2 Tanwariwyd y gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd effaith swyddi gwag ac absenoldebau yn y swyddfa. Fodd bynnag, ar gyfer 2014/15, disgwylir y bydd y swm cyfan yn cael ei wario.

3.2.1 Mae crynodeb o'r cyllidebau a gwariant net ers 2010/11 yn cael eu dangos isod:

Blwyddyn	Cyllideb £'000	Gwariant Net £'000
2014/15	731	
2013/14	731	618
2012/13	731	503
2011/12	731	634
2010/11	819	724

3.3 Mae'r gyllideb ar gyfer 2014/15 yn cynnwys yr eitemau canlynol:

Cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15	£'000
Costau staffio a gweithwyr	562
Adeiladau	2
Lwfansau teithio, cynhaliaeth a phresenoldeb	49
Cyflenwadau a gwasanaethau	118
Cyfanswm	731

4. Cymharu ag eraill

- 4.1 Er mwyn sicrhau bod unrhyw gymhariaeth yn ddilys, mae'n bwysig cymryd y canlynol i ystyriaeth:
- A yw ffigur y gyllideb ar gyfer pob Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymdrin â'r un eitemau o incwm a gwariant?
 - A ydym yn cymharu Swyddfeydd sy'n (neu a ddylai fod yn) debyg?

- 4.2 Mae'r gyllideb a gyhoeddwyd o £0.731 miliwn ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynrychioli'r swm a reolir gan y swyddfa hon. Fodd bynnag, pan fydd yr HMIC yn ein cymharu ag eraill, mae'n defnyddio ffigurau a gyflwynwyd yn ffurflenni ystadegol CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth), oherwydd fe ddylai'r rhain gael eu cwblhau ar sail safonol. Ar gyfer gogledd Cymru, mae hyn yn cynnwys:

Cost y broses ddemocrataidd *	£0.152 miliwn
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	<u>£0.648 miliwn</u>
Cyfanswm	<u>£0.800 miliwn</u>

* Mae hyn yn cynnwys cyflogau a chostau cysylltiedig Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae'r gwahaniaeth o £0.069 miliwn yn cynnwys yr addasiadau canlynol:

Y gyllideb a gyhoeddwyd	£0.731 miliwn
Ychwanegu cyfran o'r costau canolog a ddyrannwyd	£0.005
Ychwanegu archwilio allanol	£0.051
Ychwanegu rheoli trysorlys	£0.013
Cyfanswm yr addasiadau net	<u>£0.069 miliwn</u>
Cyllideb i'w gymharu ag eraill	<u>£0.800 miliwn</u>

At ddibenion cymharu â Swyddfeydd eraill Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, mae'r ffigurau CIPFA wedi cael eu defnyddio.

- 4.3 Yr ail ofyniad yw cymharu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ag eraill sy'n cael eu hystyried yn debyg. Felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, dim ond y Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd (MSG) a Chymru sydd wedi cael eu hystyried.

4.4 Mae'r tabl isod yn dangos y cyllidebau net a nifer staff (cyfwerth ag amser llawn) Swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer y Grŵp Cymharu.

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd		Cyllideb Net 2014/15 £'000	Staff (Cyfwerth ag amser llawn)
Dyfnaint a Chernyw	Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd	1,817	23.6
Gorllewin Mercia	Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd	1,633	14.0
Suffolk	Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd	1,030	10.8
Swydd Warwick	Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd	1,012	8.1
Gogledd Swydd Efrog	Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd	912	10.5
Gogledd Cymru		800	10.5
Wiltshire	Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd	699	11.7
De Cymru	Cymru	1,347	14.7
Dyfed-Powys	Cymru	1,032	15.9
Gwent	Cymru	841	11.8
Gogledd Cymru		800	10.5

5. Casgliad

5.1 Mae'r cymariaethau uchod yn dangos bod costau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru yn gymharol isel, yr ail isaf o fewn y Grŵp Mwyaf Tebyg o Heddluoedd. Mae hefyd yn nodedig, er mai Heddlu Gogledd Cymru yw'r ail heddlu mwyaf yng Nghymru, mae cost Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yr isaf yng Nghymru. Yng Nghymru a Lloegr (43 ardal heddlu) dim ond dwy o Swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sydd â chyllidebau net is na gogledd Cymru.

6. Goblygiadau

Amrywiaeth	Dim goblygiadau o ran amrywiaeth unigol
Ariannol	Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymharu'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd gyda: <ul style="list-style-type: none"> • Chyllideb cyn Awdurdod yr Heddlu • Cyllidebau Swyddfeydd eraill Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol unigol.
Cyfreithiol	Dim goblygiadau cyfreithiol unigol
Risg	Dim goblygiadau risg unigol
Heddlu a Throsedd	Dim goblygiadau heddlu a throsedd unigol

Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Teitl:	Diweddariad ar Gyllideb 2014/15 (fel yr oedd ar 30 Medi 2014)
Cyfarfod:	Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 15 Rhagfyr 2014
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau aelodau Panel yr Heddlu a Throsedd ar sefyllfa'r gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 30 Medi 2014.

2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

3. Cyllideb Refeniw 2014/15

3.1 Y gyllideb net ar gyfer 2014/15 yw £141.204 miliwn. Ar 30 Medi 2014, mae tanwariant wedi'i ragamcanu net o £0.360 miliwn (£0.385 miliwn ar 30 Mehefin 2014, fel yr adroddwyd i'r Panel Heddlu a Throsedd 2 Gorffennaf 2014).

3.2 Disgwylir gwariant i fod yn unol yn fras â'r gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau a ragwelir. Y rhai mwyaf arwyddocaol o blith y rhain yw:

3.2.1 Gweithwyr - gorwariant rhagamcanedig o £0.627 miliwn.

Dyma effaith net nifer o ffactorau, gyda'r mwyaf arwyddocaol yn cynnwys:

- Tâl Swyddogion Heddlu: Gorwariant wedi'i ragamcanu o £0.467 miliwn - mae hyn wedi'i gynllunio ac o ganlyniad i bolisi recriwtio'n gynnar i sicrhau y gellir llenwi swydd pob swyddog yr heddlu. Gellid ariannu'r gorwariant o'r Gronfa Swyddogion ar Brawf, yn unol â'r strategaeth recriwtio.
- Tâl Staff yr Heddlu: Gorwariant wedi'i ragamcanu o £0.208 miliwn – mae'r rhagamcaniad hwn wedi gostwng o £0.254 miliwn ers yr adroddiad diwethaf, yn ôl y disgwyl, oherwydd gostyngiad yn nifer y staff asiantaeth.
- Lwfansau: Tanwariant o £0.243 miliwn wedi'i ragamcanu – mae'r gyllideb yn ymgorffori elfennau ar gyfer rhentu, tai a grantiau digolledu sy'n daladwy i swyddogion presennol. Wrth i'r swyddogion hynny ymddeol, ni fydd y lwfansau hyn yn daladwy mwyach; mae'r tanwariant wedi cael ei gyfrifo yn seiliedig ar amcangyfrif o'r swyddogion sy'n ymddeol y flwyddyn ariannol hon.

3.2.2 Adeiladau - er bod tanwariant wedi'i ragamcanu o £0.298 miliwn ar hyn o bryd, mae eitemau atgyweirio amrywiol wedi cael eu nodi i wella cyflwr yr ystâd, ac i leihau'r ôl-groniad o waith atgyweirio. Felly, mae'n debygol y gorwarir costau adeiladau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

3.2.3 Cyflenwadau a Gwasanaethau - rhagwelir tanwariant o £0.180 miliwn

- Tanwariant o £0.351 miliwn wedi'i ragweld ar waith fforensig - oherwydd gofynion un-tro ychwanegol, mae'r tanwariant a ragwelwyd wedi gostwng o £0.450 miliwn. Mae gwaith fforensig wedi ei nodi fel maes lle y gellid gwneud arbedion; os bydd y lefel hon o wariant yn cael ei chynnal yna byddai'r gyllideb yn cael ei lleihau yn 2015/16.

3.3 Incwm - rhagwelir incwm ychwanegol o £0.388 miliwn

Rhagwelir incwm ychwanegol am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Nawdd am gydlynnydd lladrad metel
- Ad-daliad o'r Coleg Plismona
- Cyllid partneriaeth arall

3.4 Argyfyngau a chynilion - lle mae gwariant ac arbedion wedi'u nodi, mae'r symiau hyn wedi cael eu symud i'r llinellau cyllideb perthnasol. Mae amryw o drosglwyddiadau eraill wedi cael eu cynnal (er enghraifft, mae'r gyllideb ar gyfer y Gynghrair Drylliau Tanio wedi cael ei hailddatgan i ddangos yr incwm o secondiadau a chost fel cyfraniad at y Gynghrair).

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a'r rhagamcanion isod:

	Cyllideb Wreiddiol	Cyllideb Ddiwygiedig (fel yr oedd ar 30 Medi 2014)	Gwirioneddol (fel yr oedd ar 30 Medi 2014)	Rhagamcaniad at 31 Mawrth 2015	Rhagamcan o'r Amrywiant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithwyr	121,098	121,364	60,737	121,991	627
Adeiladau	8,187	8,437	4,039	8,139	(298)
Cludiant	5,157	5,299	2,432	5,178	(121)
Cyflenwadau a gwasanaethau	16,681	20,581	8,660	20,401	(180)
Taliadau Dyledion a Chyfraniad at Gyfalaf	1,904	2,004	-	2,004	-
Wrth gefn ac arbedion	989	439	-	439	-
Cronfa diogelwch cymunedol	1,166	1,166	13	1,166	-
Gwariant Gros	155,182	159,290	75,881	159,318	28
Incwm	(14,247)	(18,355)	(6,986)	(18,743)	(388)
Cronfa Wrth Gefn PFI	373	373	-	373	-
Cronfa Wrth Gefn					

Ymwybyddiaeth Cyflymder	(104)	(104)	-	(104)	-
Gwariant Net	141,204	141,204	68,895	140,844	(360)

3.6 Yn ogystal â'r uchod, rydym wedi derbyn arian gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr a chyfiawnder adferol. Mae manylion y grantiau yn cael eu dangos isod:

	Swm y Grant	Gwirioneddol (fel yr oedd ar 31 Hydref 2014)	Rhagamcaniad at 31 Mawrth 2015	Rhagamcan o'r Amrywiant
Costau sefydlu	£253,873	£41,972	£253,873	£-
Gwasanaethau dioddefwyr	£238,616	£-	£238,616	£-
Cronfa y cystadlwyd amdani	£258,451	£16,540	£171,199	(£87,252)

4. Cyllidebau Cyfalaf 2014/15

4.1 Y gyllideb gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (fesul Cynllun Ariannol Tymor Canolig) yw £13.9 miliwn, a gynyddodd i £15.3 miliwn pan gynhwyswyd eitemau o wariant cyfalaf a ddygwyd ymlaen o 2013/14. Mae tua hanner o hyn yn ymwneud â 3 phrosiect: Wrecsam (£4.4 miliwn), Llandudno (£2.75 miliwn) a Phyllheli (£0.85 miliwn). Cytunwyd ar yr achosion busnes cychwynnol ar gyfer pob un o'r prosiectau hyn; fodd bynnag, mae'n debygol na fydd gwaith adeiladu yn dechrau tan 2015/16. Felly, mae pob cyllideb cyfalaf wedi cael eu hadolygu a'u hail-broffilio i ddod â nhw yn unol â disgwyliadau cyfredol.

4.2 Mae crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf yn cael eu dangos isod:

	Cyllideb Wreiddi ol 2014/15 £'000	Cyllideb Ddiwygied ig 2014/15 £'000	Gwariant Gwirionedd ol at 30 Medi 2014 £'000	Cyllideb Wreiddi ol 2015/16 £'000	Cyllideb Ddiwygied ig 2015/16 £'000	Cyllideb Wreiddi ol 2016/17 £'000	Cyllideb Ddiwygied ig 2016/17 £'000
Rhaglen Ystadau	9,289	3,517	497	5,550	11,693	5,767	6,510
Cerbydau ac offer	1,500	2,202	423	1,500	1,500	1,500	1,500
TG a Chyfathrebu	3,139	1,394	296	2,100	4,545	1,220	300
Cyfanswm	13,928	7,113	1,216	9,150	17,738	8,487	8,310

5. Goblygiadau

Amrywiaeth	Dim goblygiadau o ran amrywiaeth unigol
Atebolrwydd	Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu Panel yr Heddlu a Throsedd o sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf ar ddiwedd mis Medi 2014. Mae adnoddau cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol.
Cyfreithiol	Dim goblygiadau cyfreithiol unigol
Risg	Dim goblygiadau risg unigol
Heddlu a Throsedd	Dim goblygiadau heddlu a throsedd unigol

ADRODDIAD I:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2014
SWYDDOG CYSWLLT:	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd a'r Amgylchedd) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
TESTUN:	Adolygiad o Aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Adolygu dadansoddiad aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014, gan ystyried newidiadau yn aelodaeth wleidyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn cynnwys deg Aelod Etholedig a dau Aelod Annibynnol. Bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru.
- 2.2 Adolygodd yr Awdurdod Cynnal aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd ym mis Mehefin 2013, yn unol â darpariaethau *Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a *Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012*. Mae hefyd angen i'r Awdurdod Cynnal ystyried recriwtio'n barhaus i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol y Panel Heddlu a Throsedd.
- 2.3 Oherwydd ymddiswyddiad 10 aelod etholedig o'r Grŵp Llafur ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r Awdurdod Cynnal wedi adolygu'r aelodaeth, sy'n ystyried gweithredu methodoleg d'Hondt (y mae pob Awdurdod Lleol wedi cytuno ei mabwysiadu).
- 2.4 Er bod nifer yr Aelodau i gael eu penodi ar gyfer pob Cyngor yn aros yr un fath, sef 2 yr un i Gonwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam ac 1 yr un ar gyfer Sir Ddinbych ac Ynys Môn, mae'r dadansoddiad wedi golygu fod seddi dau o'r grwpiau gwleidyddol wedi newid o ganlyniad..

2.5 Mae'r adolygiadau'n awgrymu y dylid dyrannu'r seddi fel a ganlyn:

Annibynnol - 4 (3 o'r blaen)
Llafur - 2 (3 o'r blaen)
Plaid Cymru - 2 (dim newid)
Ceidwadwyr - 1 (dim newid)
Democratiaid Rhyddfrydol - 1 (dim newid)

2.6 O ran yr ymarferiad dyrannu, mae'r canlyniad yn awgrymu bod y grŵp / grwpiau ar gyfer Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn yn aros fel y maent ar hyn o bryd, ond y byddai Wrecsam yn newid yr Aelodau a enwebwyd ganddynt o 1 Llafur ac 1 Annibynnol i 2 Annibynnol.

3. ARGYMHELLION /OPSIYNAU

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn adolygu aelodaeth y Panel yn ôl y gofyn ac yn ystyried sut mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynrychioli pob rhan o ardal yr heddlu ac yn cynrychioli cyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdodau Lleol perthnasol pan gymerir hwy gyda'i gilydd.

3.2 Bod y canlyniad a awgrymir ym Mharagraff 2.6 yn cael ei gymeradwyo ac ar ôl eu penodi, bod aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael ei chyflwyno i'r Swyddfa Gartref i gael ei chymeradwyo.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn cynnwys deg Aelod Etholedig a dau Aelod Annibynnol. Bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru.

4.2 Mae tabl sy'n defnyddio methodoleg d'hondt yn cadarnhau dyraniad nifer y seddau ar y Panel ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn ôl poblogaeth. Y ffigurau poblogaeth yw'r rhai a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth bennu Setliad Grant Cynnal Refeniw'r flwyddyn berthnasol.

4.3 Mae'r tabl sy'n defnyddio methodoleg d'hondt hefyd yn cadarnhau'r seddau ar gyfer pob grŵp gwleidyddol ar draws gogledd Cymru at ei gilydd ac mae'n dangos cyfrannau pob grŵp gwleidyddol yn ôl Awdurdodau Lleol unigol.

- 4.4 O ran y broses ddyrannu, defnyddiwyd egwyddor y gyfran uchaf sydd gan grŵp gwleidyddol o nifer llawn yr aelodau ar gyfer y grŵp hwnnw ar draws pob un o'r 6 Awdurdod Lleol fel y prif faen prawf ar gyfer dyrannu aelodau.

Mae hyn yn awgrymu canlyniad:

- Dylai 2 aelod Plaid Cymru ddod o Wynedd (50.72%) o holl aelodau PC ar draws gogledd Cymru
 - Dylai 1 aelod Ceidwadol ddod o Gonwy (38.24%)
 - Dylai 2 aelod Llafur ddod o 1 Sir y Fflint (39.24%) ac 1 Sir Ddinbych (22.78%)
 - Dylai'r 4 aelod annibynnol ddod o 2 Wrecsam (23.33%), 1 Conwy (15.83%) ac 1 Ynys Môn (12.50%)
 - Dylai 1 aelod y Democratiaid Rhyddfrydol ddod o Sir y Fflint (38.89%)
- 4.5 O ran yr ymarferiad dyrannu, mae'r canlyniad yn awgrymu bod y grŵp / grwpiau ar gyfer Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn yn aros fel y maent ar hyn o bryd, ond y byddai Wrecsam yn newid yr Aelodau a enwebwyd ganddynt o 1 Llafur ac 1 Annibynnol i 2 Annibynnol.

5. YMGYNGHORI

- 5.1 Fel yr aelod Llafur presennol y Pwyllgor Heddlu a Throsedd, rhoddwyd gwybod i'r Cynghorydd Colin Powell (CBS Wrecsam) am y sefyllfa a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- 6.1 Dim

7. RISG

- 7.1 I gydymffurfio a'r darpariaethau yn *Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a *Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012*, mae angen cynnal adolygiad o'r aelodaeth. Os na chaiff hyn ei wneud, gallai olygu bod yr Awdurdod Cynnal yn agored i'r posibilrwydd o gael ei herio o ran cyfansoddiad y Panel Heddlu a Throsedd ac unrhyw benderfyniad/ cam gweithredu yn y dyfodol.

8. CYHOEDDI

- 8.1 Caiff aelodaeth y Panel ei gyhoeddi ar wefan Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref.

9. RHESWM DROS YR ARGYMHELLION

- 9.1 Cydymffurfio a'r darpariaethau yn *Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012.*

ADRODDIAD I'R:	Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2014
SWYDDOG CYSWLLT:	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
TESTUN:	Ymateb i ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus - Plismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 I Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried ymateb i ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Blismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Yn dilyn yr adolygiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref yn 2014, a oedd yn canolbwyntio ar y systemau sy'n dal swyddogion yr heddlu i gyfrif, mae'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r modd y mae safonau moesegol yn cael sylw ym maes atebolrwydd yr heddlu.
- 2.2 Bydd yr ymchwiliad yn eistedd ochr yn ochr â gwaith a wnaed eisoes gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag adolygiad o arweinyddiaeth yr heddlu gan y Coleg o Blismona, adolygiad o system ddisgyblu'r heddlu gan yr Uwchfrigadydd Clive Chapman, adolygiad o gwynion yr heddlu, ymgynghoriad ar rannu pryderon ac adolygiad o'r gallu gwrthlygredd yn yr holl heddluoedd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi.
- 2.3 Dyddiad cau yr ymchwiliad yw 30 Tachwedd 2014; gan fod yr adroddiad hwn yn ddogfen gyhoeddus, mae copi drafft o'r ymateb wedi cael ei

gyflwyno i'r Pwyllgor, a bydd unrhyw newidiadau a wnaed gan Banel yr Heddlu a Throsedd yn cael eu hanfon ymlaen at y Pwyllgor ar ôl hynny. Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod am y dull gweithredu arfaethedig hwn.

- 2.4 Mae llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn amgaeedig yn Atodiad 1; mae'r papur Materion a Chwestiynau yn amgaeedig yn Atodiad 2; ac mae'r ymateb arfaethedig yn amgaeedig yn Atodiad 3.

3. ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION) /OPSIYNAU

- 3.1 Bod Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cefnogi'r ymateb i'r ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Blismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, sy'n cynghori'r Prif Weinidog ar safonau moesegol ar draws bywyd cyhoeddus yn y DU, yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar faterion sy'n ymwneud â safonau ymddygiad yr holl ddeiliaid swyddogion cyhoeddus, gan gynnwys aelodau o wasanaeth yr heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ac aelodau o Baneli yr Heddlu a Throsedd.
- 4.2 Yn dilyn yr adolygiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref yn 2014, a oedd yn canolbwyntio ar y systemau sy'n dal swyddogion yr heddlu i gyfrif, mae'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r modd y mae safonau moesegol yn cael sylw ym maes atebolrwydd yr heddlu.
- 4.3 Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn edrych ar ba strwythurau sydd yn eu lle i sicrhau safonau moesegol wrth gynnal a gweithredu Paneli yr Heddlu a Throsedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a Phrif Gwnstabiailid. Bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried pa mor effeithiol yw'r strwythurau hynny, yn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a lle mae diffygion, yr hyn y byddent yn disgwyl ei weld, mewn unrhyw fodel ar gyfer atebolrwydd yr heddlu.

5. YMGYNGHORI

- 5.1 Ymgynghorwyd â phob aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd.

6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- 6.1 Dim

7. RISG

- 7.1. Drwy ymateb i'r ymchwiliad, bydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn ymwybodol o farn Panel yr Heddlu a Throsedd.

8. CYHOEDDIAD

- 8.1 Mae copi o'r ymateb yn cael ei gyhoeddi ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd.

9. RHESWM/RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION

- 9.1 Rhoi'r cyfle i Banel yr Heddlu a Throsedd roi sylw ar yr ymchwiliad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Blismona Lleol - atebolrwydd, arweinyddiaeth a moeseg.

YMATEB PANEL YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU I'R YMCHWILIAD GAN Y PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS

- PLISMONA LLEOL - ATEBOLRWYDD, ARWEINYDDIAETH A MOESEG – PAPUR MATERION A CHWESTIYNAU

i) A oes unrhyw fylchau yn y dulliau presennol ar gyfer dwyn Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i gyfrif?

- Nid oes unrhyw safonau gwirioneddol o ran sut y dylai Paneli yr Heddlu a Throsedd berfformio eu rôl ac mae angen canllawiau mwy cynhwysfawr ar rôl a chylch gwaith y Panel yr Heddlu a Throsedd a sut mae'n ymwneud â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.
- Gall Paneli yr Heddlu a Throsedd ei chael yn anodd gwahanu materion gweithredol a strategol, sy'n arwain at ddryswch ac anghytundeb ynghylch cylch gwaith y Panel. Gellir cael anawsterau hefyd wrth gydbwyso'r rôl atebolrwydd a gweithredu fel dull cefnogi ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

ii) Beth all Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd eu hunain ei wneud er mwyn gwella eu hatebolrwydd i'r cyhoedd rhwng etholiadau? Pa mor dda mae'r dulliau hyn yn gweithio yn ymarferol?

Gweithio gyda'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, partneriaethau, yr Heddlu a Phaneli yr Heddlu a Throsedd i rannu gwybodaeth a chyflawni nodau i drechu troseddau.

iii) Sut mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn sicrhau tryloywder wrth wneud eu penderfyniadau

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn darparu diweddariadau manwl ym mhob cyfarfod o Banel yr Heddlu a Throsedd, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnydd o ran yr amcanion yn ei Gynllun Heddlu a Throsedd a gwybodaeth ariannol.

Er bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cyhoeddi rhestr o benderfyniadau allweddol ar ei wefan, byddai mwy o rybudd am benderfyniadau yn caniatáu i Banel yr Heddlu a Throsedd graffu ar y materion cyn gwneud penderfyniad.

iv) Pa wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd i'w galluogi i graffu ar berfformiad eu heddlu lleol a dal Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i gyfrif? I ba raddau y mae'n hawdd ei chyrraedd, yn ddealladwy ac yn ddibynadwy?

Mae gan Banel yr Heddlu a Throsedd wefan, sy'n cynnwys rhaglenni, adroddiad a chofnodion pob cyfarfod o Banel yr Heddlu a Throsedd. Mae rhaglenni ar gael i'r cyhoedd eu gweld wythnos cyn pob cyfarfod.

Mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, oni bai fod rheswm i eithrio'r wasg a'r cyhoedd, o ganlyniad i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu manylion ynghylch gwybodaeth statudol benodol ar ei wefan. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys sut y gwneir penderfyniadau, gwybodaeth am berfformiad, craffu, manylion am gyfarfodydd cyhoeddus / cymorthfeydd (gan gynnwys rhaglenni a chofnodion), gwybodaeth ariannol a pholisi a gweithdrefnau sy'n rheoli gweithrediad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

v) Beth sydd wedi gweithio orau i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol?

I Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd roi sylwadau arnynt.

vi) Pa mor dda mae Paneli yr Heddlu a Throsedd yn gallu dwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyfrif rhwng etholiadau?

- a) A oes angen unrhyw eglurhad pellach ynglŷn â rôl Panel yr Heddlu a Throsedd?

Fel y nodwyd yn i) uchod, nid oes unrhyw safonau gwirioneddol o ran sut y dylai Paneli yr Heddlu a Throsedd berfformio eu rôl ac mae angen canllawiau mwy cynhwysfawr ar rôl a chylch gwaith Panel yr Heddlu a Throsedd a sut mae'n ymwneud â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

- b) Pa mor dda yw'r trefniadau aelodaeth gytbwys cyfredol ar hyn o bryd, gan sicrhau cefnogaeth a chraffu ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn effeithiol?

Mae Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn adolygu ei aelodaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau aelodaeth 'gytbwys'; fodd bynnag, oherwydd newidiadau yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Cynghorau ac ymddiswyddiadau Aelodau'r Panel, bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Panel yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pob penodiad i'r Panel yn gofyn am gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref ac mae'r broses hon yn dod yn fwyfwy hirwyntog, ac yn ddiweddar, cymerodd hyd at chwe mis i gymeradwyo Aelod o'r Panel.

Er mwyn craffu a chefnogi'n effeithiol, mae angen i'r broses hon fod yn fwy effeithiol.

Er y codwyd pryderon yn genedlaethol ynghylch sut y gall proffil gwleidyddol Paneli yr Heddlu a Throsedd effeithio ar y broses graffu, (dylai Paneli yr Heddlu a Throsedd fod yn gymesur â phroffil gwleidyddol ardal yr Heddlu), nid yw hyn wedi bod yn broblem hyd yma yng Ngogledd Cymru.

- c) A yw'r trothwyon aelodaeth bresennol sy'n gofyn am fwyafrif o ddwy ran o dair i roi fetó ar lefel praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a phenodiad Prif Gwnstabl yn ymarferol?

Hyd yma, nid yw'r trothwyon sy'n gofyn am fwyafrif o ddwy ran o dair wedi achosi unrhyw broblemau i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

- d) A ddylai Paneli yr Heddlu a Throsedd gael y pŵer i roi fetó ar benodiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o uwch staff, lle maent yn credu nad oedd y meini prawf ar gyfer addaswydd yn briodol neu wedi'u bodloni?

Er budd tryloywder a budd y cyhoedd, dylai Paneli yr Heddlu a Throsedd gael y pŵer i roi fetó ar benodiadau o'r fath.

- e) Sut dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd gael eu dwyn i gyfrif am eu safonau ymddygiad personol? Pa rôl ddylai Paneli yr Heddlu a Throsedd gael yn hyn?

Disgwylir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd gynnal y safonau uchaf o ymddygiad mewn perthynas â gonestrwydd, didwylledd, uniondeb ac atebolrwydd ac er bod gan Banel yr Heddlu a Throsedd gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, gellir cael rhai heriau, yn arbennig o gwmpas y gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn droseddol yn erbyn Panel yr Heddlu a Throsedd, sy'n golygu treulio amser anghyfartal ar y mater.

Mae angen canllawiau cliriach ar yr hyn sy'n gwneud cwyn gyffredinol, mater ymddygiad a chwyn ddifrifol.

- vii) **A yw'r ffiniau rhwng rolau a chyfrifoldebau lleol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cael eu cyfleu a'u deall yn ddigonol gan gymunedau lleol? A oes tystiolaeth bod arnynt angen unrhyw eglurhad neu arweiniad pellach?**

I Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd roi sylwadau arnynt.

- viii) **Yn ôl y Cod Rheoli Ariannol, dylai Pwyllgorau Archwilio 'gynggori Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn unol ag egwyddorion llywodraethu da ac i fabwysiadu trefniadau rheoli risg.' Pa mor dda y mae hyn yn gweithio'n ymarferol? A oes unrhyw enghreifftiau o wrthdaro buddiannau sy'n codi yn sgil Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstablaid gyda phwyllgor archwilio ar y cyd a / neu brif swyddog ariannol ar y cyd, mewn rhai achosion?**

I Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd roi sylwadau arnynt.

- ix) **Beth ydych chi'n ei weld yw cyfrifoldebau allweddol Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd fel arweinwyr moesegol? Allwch chi roi enghreifftiau o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn rheoli'r cyfrifoldebau hynny yn dda, neu os nad ydynt yn gwneud hyn, yn gallu awgrymu yr hyn y gellir ei wella?**

Un o'r cyfrifoldebau allweddol yw gwneud yr heddlu yn fwy tryloyw ac ymgysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd a chymunedau. Yn ogystal, mae angen i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd sicrhau tryloywder wrth iddo wneud penderfyniadau.

- x) **Pa gamau mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn eu cymryd i sicrhau eu bod nhw a'r heddlu maent yn ei ddal i gyfrif yn cynnal y safonau moesegol uchaf ac yn ymgorffori Cod Plismona ar Foeseg. Yn benodol, sut mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstablaid fel arweinwyr yn hyrwyddo a chynnal gwerthoedd craidd plismona yn wyneb yr holl bwysau eraill ar yr heddlu? Sut y caiff unrhyw rwystrau eu goresgyn?**

I Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd roi sylwadau arnynt.

- xi) **A oes digon o dryloywder o wybodaeth briodoldeb gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, er enghraifft, gwybodaeth wedi'i chyhoeddi am dreuliau, cofrestr cysylltiadau, rhoddion a lletygarwch a chyfarfodydd allanol?**

Mae Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn darparu manylion ar wybodaeth briodoldeb ar ei wefan fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

- xii) **Pa fesurau sydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth gefnogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i nodi a datrys gwrthdaro buddiannau wrth gyflawni eu dyletswyddau? A oes digon o brotocolau a chanllawiau cadarn ar waith yn lleol i reoli'r rhain mewn modd tryloyw?**

I Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd roi sylwadau arnynt.

Room GC.05
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

Tel: 020 7271 2948/0853

Email: public@standards.gsi.gov.uk
Web: www.public-standards.gov.uk

Committee on Standards in Public Life

North Wales Police and
Crime Panel
Democratic Services
Conwy County Borough
Council
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

10 October 2014

Dear members of the North Wales Police and Crime Panel,

Local Policing – accountability, leadership and ethics

I am writing to advise you that the Committee has commenced an inquiry on the public accountability structures of the police.

Various reviews announced by the Home Secretary in July 2014 focus on the systems that hold police officers to account; we intend to complement this work by looking at accountability in police governance from a standards point of view. The current system as a whole, and individual elements of it, have been the subject of criticism. Much of this relates to standards issues, yet the relationship between standards and governance structures has been relatively underexplored. We intend to look at the structures in place for ensuring ethical standards in the conduct and performance of Police and Crime Panels, Police and Crime Commissioners, and Chief Constables. We will then go on to consider how effective those structures are, what works well and, if there are shortcomings, identify what we would expect to see – in any model for police accountability. We will be seeking the necessary assurance that ethical standards in public life are, and are capable of being, upheld.

The Committee would like to receive your responses to some or all of the attached questions. Please send your response no later than **12 noon on 30 November**. Details on how to submit a response can be found in the attached issues and questions paper.

Regards,



Paul Bew
Chair

Enc: Issues and Questions paper

Selflessness | Integrity | Objectivity | Accountability | Openness | Honesty | Leadership

Tudalen 47

Local Policing – accountability, leadership and ethics

Issues and Questions paper

The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 enabled the election of the first Police and Crime Commissioners (PCCs) in November 2012. Elected PCCs would, in the words of the then Police Minister Nick Herbert, ‘swap the bureaucratic control of the police for democratic accountability’ which would ‘benefit police and public alike.’ Section 14 of the Policing Protocol 2011 makes clear:

The public accountability for the delivery and performance of the police service is placed into the hands of the PCC on behalf of their electorate. The PCC draws on their mandate to set and shape the strategic objectives of their force area in consultation with the Chief Constable. They are accountable to the electorate; the Chief Constable is accountable to their PCC. The [Police and Crime] Panel within each force area is empowered to maintain a regular check and balance on the performance of the PCC in that context.

The Policing Protocol also makes clear at section 10 that ‘All parties will abide by the seven principles set out in Standards in Public Life: First Report of the Committee on Standards in Public Life (a) (known as the “Nolan Principles”).’ The Seven Principles of Public Life are Selflessness, Integrity, Objectivity, Accountability, Openness, Honesty and Leadership.

In January 2014 the National Audit Office published a review of the police accountability landscape, examining ‘whether the Department’s chosen framework is sufficient for providing assurance for value for money in the police service and operating as intended.’ Naturally, given the remit of the NAO, the focus of their report was on assurance for value for money. It was not within their scope to consider the extent to which the accountability framework for policing was sufficient for providing assurance that the Seven Principles of Public Life were being observed.

The Committee on Standards in Public Life, which advises the Prime Minister on ethical standards across public life in the UK, is responsible for monitoring and reporting on issues relating to the standards of conduct of all public office holders. The category of public office holder includes members of the police service, Police and Crime Commissioners and members of

Police and Crime Panels. It is clearly within our remit to consider the accountability framework for policing in the context of ethical standards.

In our report *Standards Matters*, published in January 2013, just months after the first PCC elections, we noted the risks arising from new ways of delivering public services, including policing. We stated then that 'It is essential to take care in all these cases [where new models are introduced] to design governance structures which actively promote the right ethical behaviour' and that 'We intend to monitor the extent to which PCCs are genuinely open and accountable and how successfully any ethical risks (such as conflicts of interest) arising from their role are addressed.'

We have decided that the time is right to undertake a review of how ethical standards are being addressed in the police accountability landscape. There are three reasons for doing this now. Firstly, as with any new system, it is sensible to review its operation to test how well it is living up to its original rationale and at this point we have the benefit of nearly two years of evidence on which to base any judgements. Secondly, the new system as a whole, and individual elements of it, have been the subject of criticism, much of it arising from standards issues, yet the relationship between standards and governance structures has been relatively underexplored; more needs to be done to consider how governance structures can promote ethical behaviour and limit ethical risks. And finally, in the light of recent scandals and criticisms, all political parties have indicated that they are likely to make further changes to the police accountability framework. We believe any changes should be informed by the widest possible range of evidence – evidence on efficiency, on effectiveness, on value for money, on democratic accountability and on public confidence in standards in public life.

This inquiry by the Committee on Standards in Public Life sits alongside the work already done by the National Audit Office, and is being conducted alongside a review of police leadership by the College of Policing, a review of the police disciplinary system by Major General Clive Chapman, a review of police complaints, a consultation on whistleblowing, and a review of the anti-corruption capability in all police forces by Her Majesty's Inspectorate of Constabulary. A substantial evidence base on accountability in policing is being constructed.

Our contribution, in this inquiry, will be to focus on the public accountability structures of the police. The reviews announced by the Home Secretary in July 2014 focus on the systems that hold police officers to account; we will complement her work by looking at accountability in police governance from a standards point of view. In particular, we will look at what structures are in place for ensuring ethical standards in the conduct and operation of Police and Crime Panels, Police and Crime Commissioners, and Chief Constables. We will then go on to consider how effective those structures are, identify what works well and, where there are shortcomings, what we would expect to see – in any model for police accountability. We will be seeking the necessary assurance that ethical standards in public life are, and are capable of being, upheld.

Whether a new model of policing accountability and governance is introduced, or whether the existing model is modified or stays the same, it is essential that the model is capable of promoting

ethical behaviour, reducing ethical risks and providing effective accountability in order to command public confidence.

The Committee would like to receive your answers to some or all of the questions set out in this paper.

Please send in your response by no later than **noon on 30 November 2014**. Details on how to submit your response can be found at the bottom of the call for evidence.

Background

1. Our policing system relies on policing by consent in ways that meet the differing needs and priorities of communities. Operational decisions are taken by Chief Constables, who are held to account through democratic scrutiny, which over time has taken various forms – watch committees, police committees, two forms of police authorities and now Police and Crime Commissioners. The changing forms of oversight are evidence of the difficult and continuing tensions in achieving democratic scrutiny that commands public trust and confidence in operational policing.
